# Radio Cymunedol: dull gweithredu yn y dyfodol ar gyfer y Prif Ymrwymiadau

Ymgynghoriad ar gynnig Ofcom i symleiddio'r Prif Ymrwymiadau

**Ymgynghoriad**

Cyhoeddwyd 22 Mawrth 2024
Dyddiad olaf ar gyfer derbyn ymatebion: 13 Mehefin 2024

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg ..... 3
2. Cefndir ..... 5
3. Dull gweithredu presennol ar gyfer y Prif Ymrwymiadau ..... 9
4. Dull gweithredu arfaethedig ar gyfer y Prif Ymrwymiadau ..... 13
5. Y camau nesaf a gynigir ..... 23


## Atodiad


A1. Fframwaith Cyfreithiol ..... 24
A2. Asesiadau effaith ..... 33
A3. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn ..... 36
A4. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori ..... 39
A5. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad ..... 40
A6. Cwestiynau'r ymgynghoriad ..... 41

# 1. Trosolwg

1.1 Mae gwasanaethau radio cymunedol sy'n darlledu ar FM neu AM (analog) yn darparu budd cymdeithasol a manteision cymunedol eraill ar sail dim-er-elw.

1.2 Rhaid i bob gorsaf ddarparu'r gwasanaeth sydd wedi'i ddisgrifio yn ei thrwydded, sy'n seiliedig ar gynigion yr orsaf yn ystod y broses o wneud cais am y drwydded. Enw'r disgrifiadau gwasanaeth hyn sydd wedi'u cofnodi mewn trwyddedau radio cymunedol yw'r 'Prif Ymrwymiadau'. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am safbwyntiau ar gynnig i symleiddio'r Prif Ymrwymiadau ar gyfer gorsafoedd radio cymunedol, analog.

### Beth rydyn ni'n ei gynnig – yn gryno

Rydyn ni'n cynnig amrywio trwyddedau radio cymunedol i roi rhagor o hyblygrwydd i orsafoedd, er mwyn iddynt allu canolbwyntio ar greu budd cymdeithasol i'w cymunedau targed. I wneud hyn, rydyn ni'n cynnig cael gwared ar gwotâu penodol ar gyfer:

- Y mathau o raglenni i'w darlledu, ee y prif fathau o allbwn cerddoriaeth a llafar.
- Nifer yr oriau o allbwn gwreiddiol sy'n cael ei ddarlledu bob wythnos.
- Nifer yr oriau o allbwn wedi'i gynhyrchu'n lleol sy'n cael ei ddarlledu bob wythnos.
- Yr ieithoedd sy'n cael eu darlledu ar y gwasanaeth.

1.3 Mae'r sector radio cymunedol yn rhan bwysig o dirwedd radio'r DU. Ers cyhoeddi'r trwyddedau radio cymunedol llawn cyntaf yn 2005, mae'r sector wedi tyfu'n gyson ac mae bellach yn cynnwys dros 300 o wasanaethau analog (AM / FM). Ar y cyfan, mae'r gwasanaethau hyn yn darparu ar gyfer ardal ddaearyddol fach ac yn cael eu rhedeg ar sail dim-er-elw.

1.4 Mae pob gorsaf yn darparu gwasanaeth unigryw, sy'n canolbwyntio ar y gymuned, gan lynu wrth ei rhwymedigaethau craidd o beidio â chael y nod o wneud elw, a darparu budd cymdeithasol. Maen nhw'n gallu darparu ar gyfer cymunedau cyfan neu feysydd diddordeb gwahanol – fel grŵp ethnig, grŵp oedran neu grŵp diddordeb penodol. Mae pob trwydded radio cymunedol yn cynnwys Prif Ymrwymiadau, sy'n amlinellu gofynion yr orsaf o ran cymeriad y gwasanaeth a budd cymdeithasol, yn ogystal â gofynion a chwotâu penodol mewn cysylltiad â natur y gwasanaeth sy'n cael ei ddarlledu (gan gynnwys mathau o allbwn llafar a cherddoriaeth, allbwn gwreiddiol ac allbwn sy'n cael ei gynhyrchu'n lleol, ac unrhyw ofynion iaith heb ar wahân i Saesneg).

1.5 Credwn fod fformat presennol y Prif Ymrwymiadau yn canolbwyntio'n rhy drwm ar gwotâu penodol, gan ddwyn sylw oddi wrth y gofynion o ran cymeriad y gwasanaeth a budd cymdeithasol. Yn ein barn ni, dyma agweddau sylfaenol trwyddedau radio cymunedol sy'n gwneud yn siŵr bod gwrandawyr yn cael y gwasanaeth gorau posib gan eu gwasanaeth lleol. Mae adborth gan drwyddedeion radio cymunedol wedi dangos bod Prif Ymrwymiadau gor-gyfarwyddol yn gallu tynnu adnoddau oddi wrth agweddau hanfodol ar wasanaeth, ac rydyn ni am wneud yn siŵr bod gan drwyddedeion yr hyblygrwydd i roi'r gwasanaeth gorau posib i'w cymuned, gan wneud yn siŵr ar yr un pryd bod rheolau priodol yn dal ar waith i ddiogelu cymeriad cyffredinol y gwasanaeth.

1.6 Hefyd, rydyn ni weld gweld cynnydd amlwg yn nifer y cwynion am gydymffurfedd gorsafoedd radio cymunedol â'u Prif Ymrwymiadau dros y blynyddoedd diwethaf. Mae llawer o'r cwynion hyn yn canolbwyntio ar y cwotâu penodol hyn ac mae ymchwilio iddynt yn gallu gofyn am adnoddau sylweddol ar ran y trwyddedeion, ac Ofcom. Mae fformat presennol y Prif Ymrwymiadau hefyd yn gallu golygu bod gorsafoedd yn torri eu Prif Ymrwymiadau er eu bod yn darparu gwasanaeth da i'w cymuned darged.

1.7 Gwyddwn fod Prif Ymrwymiadau rhai gorsafoedd yn cynnwys gofynion penodol o ran ieithoedd ar wahân i Saesneg ar hyn o bryd. Rydyn ni'n cynnig cael gwared ar yr adran gofyniad iaith benodol yn fformat presennol y Prif Ymrwymiadau. Fodd bynnag, os ydyn ni'n credu bod yr ieithoedd sydd wedi'u rhestru yn bwysig i gymeriad cyffredinol y gwasanaeth ac na chyfeirir yn benodol atynt yng nghymeriad y gwasanaeth, rydyn ni'n cynnig diogelu hyn drwy ychwanegu llinell at gymeriad y gwasanaeth yn nodi y bydd yr ieithoedd hyn yn cael eu darlledu ar yr orsaf.

1.8 Byddai'r dull arfaethedig hwn, os caiff ei fabwysiadu, (yn dilyn cyfle i drwyddedeion unigol wneud sylwadau) yn berthnasol i'r holl drwyddedau radio cymunedol cyfredol ac i unrhyw geisiadau am drwyddedau radio cymunedol a gaiff eu hysbysebu yn y dyfodol.

## Y camau nesaf

1.9 Rydyn ni nawr yn gofyn am sylwadau ar ein dull newydd arfaethedig. Ar ôl i'r ymgynghoriad hwn ddod i ben, byddwn yn gwerthuso'r ymatebion cyn penderfynu a ddylid mabwysiadu ein dull gweithredu symlach newydd, arfaethedig ar gyfer Prif Ymrwymiadau radio cymunedol. Byddwn wedyn yn cyhoeddi datganiad ar ein penderfyniad.

1.10 Os byddwn yn penderfynu bwrw ymlaen â'n cynigion, byddwn yn adolygu pob trwydded gyfredol ac yn cynnig amrywiadau yn ôl ein cynigion. Wedyn, bydd trwyddedeion unigol yn cael cyfle rhesymol i wneud sylwadau ynghylch yr amrywiadau arfaethedig cyn y cânt eu rhoi ar waith, yn unol ag adran 86(5)(b) o Ddeddf Darlledu 1990.

1.11 Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yw dydd Iau 13 Mehefin 2024.

1.12 Dim ond crynodeb byr a syml sydd yn y trosolwg hwn o'r ddogfen. Mae'r cynigion rydyn ni'n ymgynghori yn eu cylch a'n rhesymeg ni wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.

# 2. Cefndir

2.1 Mae Ofcom yn dyfarnu trwyddedau radio cymunedol analog, a hynny ar gyfer gwasanaethau sy’n darparu ar gyfer ardal ddaearyddol fach fel arfer. Caiff y gwasanaethau eu rhedeg ar sail dim-er-elw. Maen nhw’n gallu darparu ar gyfer cymunedau cyfan neu feysydd diddordeb gwahanol – fel grŵp ethnig, oedran neu ddiddordeb penodol. Mae’r trwyddedau’n para am hyd at bum mlynedd ar y tro ond gellir eu hymestyn. Mae nifer o wahaniaethau rhwng gorsafoedd radio cymunedol unigol ac mae’r sector yn cynnwys nifer o orsafoedd bach, oll dan berchnogaeth unigol.

## Fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio radio cymunedol

2.1 Gorchymyn Radio Cymunedol 2004 (y Gorchymyn) yw’r statud a arweiniodd at benderfyniad Ofcom i ddechrau dyrannu sbectrwm i wasanaethau radio cymunedol. Mae’r Gorchymyn hwn, sydd wedi cael ei ddiwygio ar ddau achlysur, yn sefydlu natur gwasanaeth radio cymunedol ac yn cynnwys darpariaethau penodol y mae’n rhaid i Ofcom eu gweithredu fel rhan o’i drefn trwyddedu a rheoleiddio. Yn benodol, mae’n amlinellu:

- Nodweddion gwasanaethau radio cymunedol, sef y rhesymau dros eu darpariaeth, priodoleddau’r person sy’n darparu’r gwasanaeth, cyfleoedd i’r gymuned gymryd rhan, ac atebolrwydd i’r gymuned sy’n cael ei gwasanaethu.
- Diffiniad o’r ‘gymuned’ y mae gwasanaeth i fod i’w wasanaethu: y bobl hynny mewn ardal ddaearyddol neu gymuned diddordeb.
- Diffiniad o’r ‘budd cymdeithasol’ y mae disgwyl i wasanaethau ei greu: darlledu i unigolion sy’n cael eu tanwasanaethu, hwyluso trafodaeth a mynegiant barn, darparu addysg neu hyfforddiant i bobl nad ydynt wedi’u cyflogi gan y sawl sy’n darparu’r gwasanaeth, a gwella dealltwriaeth a chysylltiadau yn y gymuned. Ar ben hynny, mae amrywiaeth o amcanion cymdeithasol eraill wedi’u rhestru sy’n golygu budd cymdeithasol: darparu gwasanaethau o natur gymdeithasol, datblygiad economaidd, cyflogaeth, profiad gwaith, cynhwysiad cymdeithasol, amrywiaeth ddiwylliannol ac ieithyddol, cyfranogiad sifil, a gwirfoddoli.

2.2 Wrth ddyfarnu trwyddedau radio cymunedol, rhaid i Ofcom hefyd ystyried adran 105 o Ddeddf Darlledu 1990 (Deddf 1990), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a’i haddasu gan y Gorchymyn.

2.3 Mae Adran 105 o Ddeddf 1990 yn amlinellu’r materion y mae’n rhaid i Ofcom eu hystyried wrth werthuso cynigion am drwydded radio cymunedol a dyfarnu trwyddedau, sef:

- Gallu cynnal y gwasanaeth drwy gydol cyfnod y drwydded arfaethedig;
- Darparu ar gyfer chwaeth a diddordebau’r gymuned berthnasol;
- Ehangu dewis a’r gwahaniaeth rhwng gwasanaethau sy’n gorgyffwrdd;
- Tystiolaeth o alw neu gefnogaeth;
- Hyd a lled y budd cymdeithasol;
- Atebolrwydd i’r gymuned;
- Mynediad at gyfleusterau a hyfforddiant i’w defnyddio.

2.4 Yn olaf, mae'r Gorchymyn yn cynnwys gofyniad i Ofcom ystyried yr effaith economaidd bosib trwyddedu gwasanaethau radio cymunedol ar orsafoedd radio masnachol, cyfyngiadau ar incwm drwy werthu hysbysebion ar yr awyr, a chyfyngiadau ar nawdd a pherchnogaeth. Mae'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn ystyried yr ymatebion i'w ymgynghoriad[1], a ddaeth i ben ar 31 Ionawr 2024, a oedd yn canolbwyntio ar nifer o faterion mewn cysylltiad â deddfwriaeth radio cymunedol, gan gynnwys a ddylid cael gwared ar y cyfyngiadau cyllido.

2.5 Mae Ofcom yn dyfarnu trwyddedau radio cymunedol i wneud yn siŵr bod gwasanaethau radio cymunedol yn cyflawni'r dibenion statudol sydd wedi'u nodi yn y Gorchymyn. Pan fydd Ofcom yn gwahodd ceisiadau am drwyddedau radio cymunedol, mae ymgeiswyr yn llenwi ffurflen gais gyda gwybodaeth am eu gwasanaeth arfaethedig, eu cynllun busnes, eu profiad, ac ati. Mae Ofcom yn ystyried a yw'r cais yn bodloni'r gofynion statudol sydd wedi'u disgrifio uchod ac, os oes mwy nag un ymgeisydd mewn ardal ddaearyddol benodol, pa ymgeisydd fyddai'n cyflawni prif ddibenion radio cymunedol orau. O ran rhai o'r gofynion statudol hyn, rhaid i Ofcom eu hystyried dim ond pan fydd yn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu trwyddedau, fel y gofyniad bod ymgeisydd yn gallu cynnal y gwasanaeth, neu fod tystiolaeth o alw neu gefnogaeth. Ond mae gofynion statudol eraill yn rhan o'r cais ac mae'r rhain yn berthnasol drwy gydol cyfnod trwyddedau radio cymunedol. Mae'r rhain yn cynnwys gofynion mewn cysylltiad â budd cymdeithasol a chymeriad y gwasanaeth.

2.6 I wneud yn siŵr bod gwasanaethau unigol yn bodloni'r gofynion hyn, maen nhw wedi'u cynnwys yn nhrwyddedau radio cymunedol ymgeiswyr llwyddiannus fel Prif Ymrwymiadau. Mae Adran 106(a) o Ddeddf 1990 hefyd yn mynnu bod pob trwydded yn cynnwys amodau sydd, ym marn Ofcom, yn briodol ar gyfer sicrhau bod cymeriad y gwasanaeth trwyddedig (fel y cynigir gan ddeiliad y drwydded yn ei gais) yn cael ei gynnal dros gyfnod y drwydded.

2.7 Yn ogystal â bod yn rhan o geisiadau am drwydded a bod yn berthnasol i'r broses o ddyfarnu trwyddedau radio cymunedol, mae'r Prif Ymrwymiadau yn bwysig i agweddau eraill ar y drefn trwyddedu radio cymunedol hefyd, gan gynnwys:

- Cydymffurfio a gorfodi: Rhaid i Ofcom wneud yn siŵr bod trwyddedeion yn darparu eu gwasanaeth trwyddedig am gyfnod y drwydded, ac mae'r Prif Ymrwymiadau yn ymgorffori'r hyn y mae'n rhaid iddynt ei gyflawni.
- Penderfyniadau ynghylch amrywio trwydded radio cymunedol: mae proses yn bodoli sy'n ei gwneud yn bosib newid y Prif Ymrwymiadau gyda chaniatâd Ofcom, yn amodol ar feini prawf statudol a pholisi.

2.8 Ar hyn o bryd, gellir ymestyn trwydded radio cymunedol am gyfnod pellach o hyd at bum mlynedd ar dri achlysur, ond fel y nodir uchod, mae'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wrthi'n ystyried yr ymatebion i'w ymgynghoriad a oedd yn cynnwys cynigion i ddeddfu ar gyfer estyniadau pellach.

2.9 Mae fframwaith cyfreithiol manylach yn Atodiad A1 isod.

## Datblygu Prif Ymrwymiadau radio cymunedol

2.10 Fel yr esbonnir uchod, mae'r Prif Ymrwymiadau'n cael eu defnyddio gan Ofcom i wneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu trwyddedau. Ar ôl i wasanaeth ddechrau darlledu, maen nhw hefyd yn cael eu defnyddio i wneud yn siŵr bod gorsafoedd yn parhau i ddarparu

[1] Ymgynghoriad ar drwyddedau radio cymunedol analog - GOV.UK (www.gov.uk)

gwasanaeth sy'n gyson â nodweddion radio cymunedol fel yr amlinellir mewn deddfwriaeth ac yn y cais. Mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu i Ofcom gymeradwyo newidiadau i'r Prif Ymrwymiadau, cyhyd â bod meini prawf penodol yn cael eu bodloni.

2.11 Mae dull gweithredu Ofcom ar gyfer y Prif Ymrwymiadau wedi datblygu yn ystod yr 19 mlynedd ers inni ddechrau trwyddedu gwasanaethau radio cymunedol. Yn ystod y cyntaf a'r ail o'r cylchoedd trwyddedu radio cymunedol, cafodd y Prif Ymrwymiadau yn y trwyddedau radio cymunedol eu drafftio gan Ofcom ar sail y disgrifiad o'r gwasanaeth arfaethedig yn y cais am y drwydded.

2.12 Roedd y dull gweithredu hwn yn helpu i sicrhau bod trwyddedau'n cynnwys rhwymedigaethau mesuradwy ar draws holl nodweddion deddfwriaethol gwasanaethau radio cymunedol, gan barhau i fod yn adlewyrchiad cywir o'r gwasanaeth sydd wedi'i gynnig yn y cais. Fodd bynnag, roedd y broses yn cymryd llawer o amser, ac weithiau'n cynnwys trafodaethau helaeth ar ôl dyfarnu trwydded rhwng Ofcom a'r darpar drwyddedai ynghylch beth dylai'r Prif Ymrwymiadau ei gynnwys.

2.13 Ar gyfer y trydydd cylch trwyddedu, penderfynodd Ofcom fabwysiadu dull gweithredu gwahanol, gan ofyn i ymgeiswyr ddrafftio eu Prif Ymrwymiadau eu hunain fel rhan o'u cais. Roedd y dull hwn yn adlewyrchu'r hyn a oedd yn cael ei ddefnyddio wrth drwyddedu radio masnachol a theledu lleol, lle roedd ymgeiswyr yn drafftio eu Hymrwymiadau o ran Fformat a Rhaglenni eu hunain. Roedd y dull hwn yn gwella effeithlonrwydd y broses drwy gael gwared ar yr angen am y broses drafod, a oedd yn hir yn aml, ar ôl dyfarnu'r drwydded.

2.14 Yn 2016, ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid, fe wnaethom benderfynu symleiddio'r Prif Ymrwymiadau. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cefnogi ein barn bod angen rhagor o hyblygrwydd a llai o faich gweinyddol ar y sector radio cymunedol. Felly, fe wnaethom newid ein dull gweithredu ar gyfer y Prif Ymrwymiadau fel bod y prif ddiben, y brif swyddogaeth a'r prif weithgareddau, y gymuned darged, a swm a math yr allbwn rhaglenni yn cael eu cadw, ond gyda llai o fanylion nag o'r blaen.

2.15 Roeddem hefyd wedi disodli Prif Ymrwymiadau pwrpasol hunan-ysgrifenedig gyda chyfres o ofynion safonol yn ymwneud â sut mae'n rhaid i wasanaethau sicrhau budd cymdeithasol, atebolrwydd a chyfranogiad.

2.16 Roeddem yn credu bod y dull hwn yn cyflawni ein hamcan o gofnodi elfennau craidd cymeriad y gwasanaeth ym mhob trwydded radio cymunedol mewn ffordd a oedd yn lleihau'r baich gweinyddol i'r trwyddedai ac i Ofcom, ac yn rhoi rhagor o hyblygrwydd i orsafoedd wasanaethu eu cymunedau targed yn well a sicrhau budd cymdeithasol gwerthfawr.

## Datblygiad y sector radio cymunedol

2.17 Mae'r sector radio cymunedol yn rhan fywiog a hollbwysig o dirwedd radio'r DU. Ers cyhoeddi'r trwyddedau radio cymunedol cyntaf yn 2005, mae'r sector wedi tyfu'n gyson ac mae bellach yn cynnwys dros 300 o orsafoedd analog (AM / FM).

2.18 Er mwyn hwyluso'r gwaith o gyflwyno amlblecsau DAB ar raddfa fach a gwasanaethau radio digidol newydd, yn ddiweddar mae Ofcom wedi rhoi blaenoriaeth i drwyddedu'r amlblecsau hyn a'r gwasanaethau rhaglenni sy'n cael eu cludo arnynt ers 2020.

2.19 Erbyn hyn, mae dros 200 o wasanaethau wedi'u trwyddedu i ddarlledu dros radio digidol (DAB / DAB+) – yn benodol, drwy'r amlblecsau DAB ar raddfa fach, sydd wrthi'n cael eu cyflwyno ledled y DU.

2.20 Yn 2021, dechreuodd Ofcom gyhoeddi trwyddedau Rhaglenni Sain Ddigidol Cymunedol (C-DSP). Mae'r rhain ar gyfer gorsafoedd radio cymunedol sy'n dymuno darlledu ar radio digidol DAB. Cawsant eu cyflwyno gyda gwasanaethau amlblecs radio newydd ar raddfa fach mewn golwg, er eu bod hefyd yn caniatáu darlledu ar wasanaethau amlblecs radio lleol. Gallai'r rhain fod yn wasanaethau radio cymunedol analog presennol sy'n dymuno bod ar gael i bobl leol ar radio digidol DAB yn ogystal ag analog, neu wasanaethau newydd sy'n dymuno darlledu ar DAB yn unig.

2.21 Mae'r 'Prif Ymrwymiadau' mewn trwyddedau C-DSP yn canolbwyntio'n bennaf ar gynnig "budd cymdeithasol", atebolrwydd i'r gymuned darged, a'r gallu i aelodau o'r gymuned honno gymryd rhan yn y gwasanaeth.

2.22 Mae'r math o gynnwys sydd i'w ddarlledu ar y gwasanaethau hyn yn cael ei gofnodi mewn disgrifiad o gymeriad y gwasanaeth, sy'n cynnwys: y gymuned darged; lleoliad y gymuned darged; a disgrifiad o brif bwrpas y gwasanaeth radio, a'i brif swyddogaeth neu ei brif weithgareddau. Mae hyn yn wahanol i drwyddedau radio cymunedol analog traddodiadol, lle roedd swm a math y rhaglenni i'w darparu gan bob gwasanaeth wedi'u cynnwys fel arfer.

2.23 Roedd y gofynion ar gyfer trwyddedau C-DSP wedi'u cynllunio i fod yn llai cyfyngol na'r gofynion ar gyfer trwyddedau radio cymunedol analog, yn rhannol oherwydd nad ydynt yn gysylltiedig â dyfarnu sbectrwm. Fodd bynnag, mae'r Prif Ymrwymiadau ar gyfer trwyddedau C-DSP wedi'u dylunio i sicrhau bod pob gwasanaeth yn parhau i fodloni meini prawf statudol trwydded C-DSP, ac yn darparu cymeriad gwasanaeth cyson i'w gymuned darged.

2.24 Fel y nodwyd uchod ym mharagraff 2.4, mae Llywodraeth y DU hefyd yn edrych ar amodau eraill sy'n ymwneud â gwasanaethau radio cymunedol analog ac yn ddiweddar, ymgynghorwyd ar ymestyn cyfnod y drwydded ar gyfer y rhain ac a yw'r cyfyngiadau ar faint o arian y gall gorsafoedd radio cymunedol ei godi o ffynonellau masnachol yn dal yn briodol.

2.25 Mae ymgynghoriad y Llywodraeth yn cydnabod y gallai'r cyfyngiadau presennol fod wedi cyfyngu ar gyfleoedd gorsafoedd radio cymunedol i dyfu a datblygu. Nod y Llywodraeth wrth adolygu'r cyfyngiadau hyn yw gwneud yn siŵr bod gan radio cymunedol y rhyddid i ddatblygu ei wasanaethau lleol (gan gynnal ei gymeriad craidd ar yr un pryd, gan gynnwys y gofyniad i greu budd cymdeithasol).

2.26 Yn yr adran ganlynol, rydyn ni'n nodi ein dull gweithredu presennol ar gyfer y Prif Ymrwymiadau, a'i effaith.

# 3. Dull gweithredu presennol ar gyfer y Prif Ymrwymiadau

## Y broses bresennol o ddiffinio'r Prif Ymrwymiadau

3.1 Fel yr esbonnir yn Adran 2 uchod, ers trydydd cylch trwyddedu radio cymunedol, mae'n rhaid i ymgeiswyr gynnig cymeriad y gwasanaeth maen nhw'n bwriadu ei ddarparu. Ers 2016, mae hyn yn seiliedig ar ofynion safonol wedi'u gosod gan Ofcom sy'n ymwneud â sut dylai gwasanaethau sicrhau budd cymdeithasol, atebolrwydd a chyfranogiad. Roeddem wedi ystyried cynigion ymgeiswyr wrth wneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu trwyddedau ac ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus, fe wnaethom gynnwys cymeriad eu gwasanaeth ar eu trwydded ar ffurf 'Prif Ymrwymiadau'. Mae'r Prif Ymrwymiadau hyn yn amlinellu amodau ynghylch y math o gynnwys y mae'n rhaid i'r gwasanaeth ei ddarlledu a'r budd cymdeithasol y mae'n ofynnol iddo ei greu i'w gymuned darged.

3.2 Ar ôl i orsaf ddechrau darlledu, mae'r Prif Ymrwymiadau hyn hefyd yn cael eu defnyddio i wneud yn siŵr bod gorsafoedd yn parhau i ddarparu gwasanaeth sy'n gyson â'r nodweddion sydd wedi'u hamlinellu mewn deddfwriaeth ac yn y cais. Hefyd mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu i Ofcom gymeradwyo newidiadau i'r Prif Ymrwymiadau, cyhyd â bod meini prawf penodol yn cael eu bodloni.

3.3 Fel y nodir uchod, mae rhai Prif Ymrwymiadau yn deillio o'r drefn statudol, sy'n diffinio beth yw gwasanaeth radio cymunedol drwy amlinellu nodweddion y dylai gwasanaeth radio cymunedol eu dangos, gan gynnwys:

- Gwasanaethu cymuned darged;
- Creu budd cymdeithasol;
- Gwahodd cyfranogiad;
- Ehangu'r dewis i wrandawyr;
- Darparu ar gyfer chwaeth a diddordebau'r gymuned darged.

3.4 Ar ben hynny, i sicrhau bod gwasanaeth yn bodloni'r meini prawf statudol ar gyfer darparu mynediad a chyfranogiad yn ogystal â darparu allbwn wedi'i gynhyrchu'n lleol, mae Ofcom yn mynnu bod y stiwdio wedi'i lleoli yn yr ardal ddarlledu drwyddedig.

3.5 Ar hyn o bryd, mae Prif Ymrwymiadau pob gorsaf radio cymunedol analog hefyd yn cynnwys gofynion a chwotâu penodol sy'n ymwneud â swm a math y rhaglenni i'w darlledu, (gan gynnwys y prif fathau o allbwn cerddoriaeth a llafar, faint o allbwn gwreiddiol sydd, faint o allbwn sy'n cael ei gynhyrchu yn lleol a'r ieithoedd y bydd y gwasanaethau'n darlledu ynddynt) er nad oes gofyniad statudol i gynnwys yr amodau hyn. Mae'r wybodaeth hon yn amrywio'n sylweddol rhwng gwasanaethau radio cymunedol analog, gan roi rhagor o faich rheoleiddiol ar rai gwasanaethau. Fel y nodwyd uchod, mae gan rai gorsafoedd radio cymunedol hefyd Brif Ymrwymiadau sy'n ymwneud â chynnwys nad yw'n Saesneg.

## Effaith ein dull gweithredu presennol ar gyfer y Prif Ymrwymiadau

3.6 Mae Prif Ymrwymiadau trwyddedau radio cymunedol analog yn nodi cymeriad y gwasanaeth y bydd gorsaf yn ei ddarparu, a'r elfennau o fudd cymdeithasol a fydd yn cael eu creu gan y Trwyddedai, a hynny ar yr awyr ac oddi ar yr awyr. Eu bwriad yw adlewyrchu'r manteision

cymunedol a fydd yn cael eu creu gan orsaf radio cymunedol i'w chymuned darged ac felly maen nhw'n rhan hanfodol o drwydded radio cymunedol.

3.7 Mae ein profiad o reoleiddio'r sector radio cymunedol wedi awgrymu efallai nad Prif Ymrwymiadau sy'n seiliedig ar gwotâu neu sy'n cynnwys gofynion manwl a phenodol am y math o raglenni i'w darlledu yw'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau bod trwyddedeion radio cymunedol yn darparu'r gwasanaeth gorau i'w cymunedau targed. Nid yw Prif Ymrwymiadau o'r fath yn sicrhau ansawdd gwasanaeth ac mae canolbwyntio ar eu cyflawni yn gallu rhwystro trwyddedeion rhag gwneud newidiadau eraill i wella'r ffordd mae eu gwasanaeth yn cael ei ddarparu.

3.8 Dros y blynyddoedd diwethaf, rydyn ni wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y cwynion mewn cysylltiad â gorsafoedd radio cymunedol sy'n ymddangos eu bod yn torri eu Prif Ymrwymiadau, yn enwedig mewn perthynas ag allbwn gwreiddiol ac allbwn sy'n cael ei gynhyrchu'n lleol. Pan fyddwn yn penderfynu agor ymchwiliad ffurfiol yn dilyn cwyn o'r fath, mae'n rhaid i drwyddedeion roi gwybodaeth berthnasol i ni a dargyfeirio adnoddau oddi wrth wasanaethu eu cymunedau targed i'n helpu i gynnal ymchwiliad. Gall ymchwiliadau arwain at fanteision sylweddol i gymunedau targed drwy sicrhau bod trwyddedeion yn gwasanaethu eu cymunedau targed yn briodol ac atal trwyddedai sy'n destun ymchwiliad, a thrwyddedeion yn fwy cyffredinol, rhag torri eu trwydded yn y dyfodol. Fodd bynnag, os yw achos o dorri yn ymwneud â methu cyrraedd cwota penodol (yn enwedig toriad bach mewn cysylltiad ag un cwota ar ddiwrnod penodol), mae manteision ymchwiliad yn debygol o fod yn fwy cyfyngedig. Mae hyn yn debygol iawn o fod yn wir pan fydd trwyddedai fel arall yn cydymffurfio â'i Brif Ymrwymiadau ac yn darparu gwerth cymdeithasol sylweddol i'w gymuned darged.

3.9 Ar ben hynny, gall Prif Ymrwymiadau gor-gyfarwyddol ddargyfeirio adnoddau, a allai fod yn gyfyngedig, oddi wrth agweddau hanfodol ar wasanaeth radio cymunedol a lleihau hyblygrwydd trwyddedai i ddefnyddio ei adnoddau yn y ffordd orau i sicrhau budd cymdeithasol i gymunedau targed. Gallai hyn olygu nad oes gan drwyddedai'r adnoddau i ganolbwyntio ar redeg y gwasanaeth yn effeithiol o ddydd i ddydd. Neu gall olygu nad oes gan drwyddedai'r adnoddau i addasu i wasanaethu ei chymuned darged yn y ffordd orau a gall ei dull gweithredu fynd yn hen ffasiwn. Os yw trwyddedai'n poeni na all gydymffurfio â'i gwotâu presennol, caiff hefyd benderfynu gwneud cais i Ofcom amrywio ei Brif Ymrwymiadau, sy'n gofyn am ragor o adnoddau. Yn fwy cyffredinol, gall olygu bod trwyddedai'n mabwysiadu agwedd 'ticio blychau' at gydymffurfio heb ganolbwyntio'n ehangach ar ddarparu gwerth cymdeithasol i'r gymuned darged.

3.10 Yn gyffredinol, gall canolbwyntio'n ormodol ar y Prif Ymrwymiadau sy'n seiliedig ar gwotâu gael effeithiau andwyol ar y defnydd o adnoddau gan drwyddedeion radio cymunedol, a allai hefyd gael effaith andwyol ar eu cymunedau targed.

3.11 Gall Prif Ymrwymiadau penodol sy'n seiliedig ar gwotâu hefyd effeithio ar sut rydyn ni'n cyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio mewn cysylltiad â radio cymunedol, er enghraifft mewn cysylltiad â phrosesau cydymffurfio, gorfodi ac amrywio trwyddedau. Er enghraifft, gall delio â chwynion sy'n gysylltiedig ag achosion posib o dorri gofynion seiliedig ar gwotâu a sicrhau bod gorsafoedd yn parhau i ddarparu gwasanaeth sy'n gyson â gofynion o'r fath ddargyfeirio adnoddau Ofcom oddi wrth sicrhau bod trwyddedeion yn cyflawni eu rhwymedigaethau o ran budd cymdeithasol yn fwy cyffredinol, lle gallwn ystyried bod rhagor o botensial o niwed i ddefnyddwyr.

3.12 Efallai y byddwn hefyd yn cael mwy o geisiadau i amrywio trwyddedau i newid y Prif Ymrwymiadau. O’r 36 cais i newid y Prif Ymrwymiadau a gyflwynwyd rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Ionawr 2024, roedd 31 yn ymwneud yn gyfan gwbl â’r elfennau o’r Prif Ymrwymiadau rydyn ni’n cynnig eu tynnu.

3.13 Gellir darparu ar gyfer newidiadau i’r gwasanaeth ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod y drwydded oherwydd mae’r cynllun statudol yn rhoi’r pŵer i Ofcom amrywio Prif Ymrwymiadau trwyddedai, a hynny ar ôl ystyried cais gan drwyddedai fel arfer. Yn amlwg, mae’r ffordd y mae Prif Ymrwymiadau trwyddedai wedi cael eu drafftio yn gallu effeithio ar ba mor aml y bydd trwyddedai’n ceisio eu newid, os o gwbl. Yn gyffredinol, gellir dweud po fwyaf manwl ac ‘amserol’ yw Prif Ymrwymiad, y mwyaf tebygol ydyw y bydd trwyddedai’n dymuno ei newid rywbryd.

## Yr achos o blaid newid

3.14 Wrth ymgysylltu â thrwyddedeion drwy gyfarfodydd ffurfiol â rhanddeiliaid a fforymau eraill, mae nifer sylweddol o ddeiliaid trwydded wedi mynegi pryderon wrthym am ein dull o orfodi’r Prif Ymrwymiadau, yn enwedig o ran gofynion rhaglennu. Yn gyffredinol, mae’r pryderon hyn yn tynnu sylw at yr awydd i’r drefn reoleiddio ganolbwyntio ar y manteision y gall y gorsafoedd hyn eu darparu i’w cymunedau, yn hytrach na mesurau llym o ran sawl awr o gynnwys sy’n cael ei ddarparu.

3.15 Y rheswm mwyaf cyffredin a nodwyd dros fethiant trwyddedeion i gyflawni agweddau ar eu Prif Ymrwymiadau, yn enwedig yr agweddau hynny â gofynion meintiol, yw absenoldeb gwirfoddolwyr, yn enwedig ar fyr rybudd. Mae gwasanaethau radio cymunedol, yn eu hanfod, yn sefydliadau dim-er-elw, ac mae llawer o ddeiliaid trwydded yn dibynnu’n helaeth, os nad yn gyfan gwbl, ar gyfraniad gwirfoddolwyr i ddarparu eu gwasanaethau a chyflawni eu Prif Ymrwymiadau. Mae trwyddedeion hefyd wedi ein gwneud yn ymwybodol o’r heriau cynyddol o ran recriwtio a chadw gwirfoddolwyr yn dilyn pandemig Covid-19 a’r argyfwng costau byw dilynol, sydd wedi’i gwneud yn anoddach i rai trwyddedeion gyflawni eu Prif Ymrwymiadau sy’n seiliedig ar gwotâu yn gyson. Er ei bod yn bwysig bod gan drwyddedeion gynlluniau wrth gefn ar waith i ddelio ag absenoldebau gwirfoddolwyr, rydyn ni’n teimlo ei bod yn briodol inni ailwerthuso’r agweddau meintiol ar y Prif Ymrwymiadau yn y cyd-destun hwn.

3.16 Fel yr esbonnir yn Adran 2 uchod, er bod gwasanaethau radio cymunedol ymysg y gwasanaethau radio lleiaf sy’n cael eu trwyddedu gan Ofcom, ar hyn o bryd mae ganddynt lefel uwch o reoleiddio na gwasanaethau radio masnachol llawer mwy. O ystyried pwrpas craidd gwasanaethau radio cymunedol, sef darparu budd cymdeithasol i’w cymunedau, rydyn ni am sicrhau bod lefel y rheoleiddio ar gyfer y gwasanaethau hyn yn briodol ac yn gymesur, o ystyried y rhwymedigaethau yn y ddeddfwriaeth.

3.17 Fel y nodwyd ym mharagraff 2.22, mae gan wasanaethau C-DSP newydd Brif Ymrwymiadau llai llawdrwm, yn gyson â’n fformat newydd arfaethedig ar gyfer Prif Ymrwymiadau trwyddedeion radio cymunedol analog. Felly, bydd gwneud y newidiadau hyn yn sicrhau cysondeb ar draws y ddau fath o drwydded.

3.18 Gan nodi’r ffactorau hyn sydd wedi’u hamlinellu uchod, mae’n bwysig taro’r cydbwysedd cywir rhwng mabwysiadu dull pragmatig o osod Prif Ymrwymiadau sydd o fudd i’r sector a’r cymunedau y mae’n eu gwasanaethu, a bod yn ymarferol o safbwynt rheoleiddio ac yn gyson â’r fframwaith cyfreithiol.

3.19 Rydyn ni’n credu bod y gofynion mewn trwyddedau radio cymunedol i gyflawni cymeriad eu gwasanaeth a chreu budd cymdeithasol yn ddigon i ddiogelu cynulleidfaoedd, ac i ddarparu gwasanaethau perthnasol o ansawdd uchel i gymunedau. Rydyn ni’n disgwyl i orsafoedd fodloni’r gofynion hyn bob amser a byddwn yn parhau i gymryd camau gorfodi priodol a chymesur ar gyfer achosion o dorri trwyddedau radio cymunedol.

3.20 Yng ngoleuni’r ystyriaethau hyn, rydyn ni’n cynnig symleiddio trwyddedau radio cymunedol drwy gael gwared ar rai cwotâu a gofynion. Dylai hyn roi rhagor o hyblygrwydd i orsafoedd, er mwyn iddynt allu canolbwyntio ar greu budd cymdeithasol i’w cymunedau targed. Rydyn ni’n trafod ein cynigion penodol a’u heffaith yn fanylach yn Adran 4 isod.

# 4. Dull gweithredu arfaethedig ar gyfer y Prif Ymrwymiadau

## Crynodeb o'r dull gweithredu arfaethedig

4.1 Rydyn ni'n dal i gredu ei bod hi'n bwysig bod y Prif Ymrwymiadau'n cyflawni'r pwrpas deuol o nodi cymeriad y gwasanaeth y bydd gorsaf yn ei ddarparu, a'r elfennau o fudd cymdeithasol a fydd yn cael eu creu gan y Trwyddedai, a hynny ar yr awyr ac oddi ar yr awyr.

4.2 Ein hamcan yw cofnodi elfennau craidd cymeriad y gwasanaeth ym mhob trwydded radio cymunedol, ond mewn ffordd sy'n rhoi rhagor o hyblygrwydd i'r gwasanaethau hynny wneud y defnydd gorau o adnoddau prin o bosib, gan ryddhau'r gwasanaethau hynny i greu rhagor o fudd cymdeithasol i'w cymunedau targed.

4.3 I wneud hynny, rydyn ni'n cynnig cael gwared ar gwotâu penodol sy'n ymwneud â'r prif fathau o allbwn llafar a cherddoriaeth, nifer yr oriau o allbwn gwreiddiol sy'n cael ei ddarlledu bob wythnos, nifer yr oriau o allbwn wedi'i gynhyrchu'n lleol sy'n cael ei ddarlledu bob wythnos, a'r ieithoedd sy'n cael eu darlledu ar y gwasanaeth. Rydyn ni'n esbonio ein cynigion yn fanylach isod.

4.4 Fel yr esbonnir yn Adran 3 uchod, mae ein profiad o reoleiddio'r sector radio cymunedol wedi awgrymu efallai nad Prif Ymrwymiadau sy'n seiliedig ar gwotâu yw'r ffordd fwyaf effeithiol o wneud yn siŵr bod trwyddedeion radio cymunedol yn darparu'r gwasanaeth gorau i'w cymunedau targed. Nid yw'r cwotâu hyn yn sicrhau ansawdd gwasanaeth ac mae canolbwyntio ar eu cyflawni yn gallu rhwystro Trwyddedeion rhag gwneud newidiadau eraill i wella'r ffordd mae eu gwasanaeth yn cael ei ddarparu a gwasanaethu eu cymuned darged yn well. Rydyn ni'n esbonio ein cynigion yn fanylach isod.

4.5 Nid ydym yn cynnig gwneud unrhyw newidiadau i'r gofynion budd cymdeithasol sydd wedi'u nodi yn y Prif Ymrwymiadau. Rydyn ni hefyd yn cynnig cadw'r gofyniad i bob gorsaf ddarlledu o stiwdio yn ei hardal ddarlledu, gan fod hyn yn ffactor pwysig o ran annog aelodau o'r gymuned darged i gael mynediad at orsaf, a hynny o ran hwyluso cyfranogiad yn y gwasanaeth a chaniatáu i wrandawyr ddarparu adborth i'r orsaf, a sicrhau atebolrwydd.

## Cynigion penodol

### Cerddoriaeth

4.6 Ar hyn o bryd mae'r Prif Ymrwymiadau yn cynnwys gofynion ar gyfer y genres penodol o gerddoriaeth sy'n cael eu chwarae ar orsafoedd radio cymunedol bob wythnos. Yn yr un modd â phob agwedd ar y Prif Ymrwymiadau, mae'r rhain yn amrywio mewn manylder ar draws trwyddedeion, sy'n creu beichiau rheoleiddio anghyfartal ar gyfer gwahanol orsafoedd a diffyg hyblygrwydd i drwyddedeion ar draws y sector.

4.7 Mae rhai gorsafoedd radio cymunedol yn orsafoedd cerddoriaeth arbenigol, sy'n apelio at wrandawyr genres cerddoriaeth penodol. Ar gyfer y gorsafoedd hyn, mae chwarae genre cerddoriaeth penodol yn elfen graidd o gymeriad y gwasanaeth ac rydyn ni'n disgwyl y bydd eu genre(s) penodol yn cael eu cynnwys yng nghymeriad eu gwasanaeth, sy'n golygu y bydd yn dal yn ofynnol iddynt ddarlledu'r mathau penodol hyn o gerddoriaeth.

4.8 Fodd bynnag, ar gyfer y rhan fwyaf o orsafoedd eraill, nid ydym yn credu bod rhwymedigaeth ar wahân sy'n ymwneud â'r mathau penodol o gerddoriaeth sy'n cael ei chwarae yn ystod yr wythnos yn angenrheidiol. Bydd cael gwared ar y gofynion hyn yn caniatáu i orsafoedd gael rhagor o hyblygrwydd i ymateb i newidiadau yn y galw gan wrandawyr ac i ddiddordebau cyflwynwyr gwirfoddol sy'n hoff o genre cerddorol penodol, heb effeithio'n negyddol ar y gwasanaeth cyffredinol sy'n cael ei ddarparu.

4.9 Rydyn ni'n cydnabod y bydd cymeriad y gwasanaeth yn dal yn cyfyngu ar rai gorsafoedd o ran y math o gerddoriaeth maen nhw'n ei chwarae. Er enghraifft, byddem yn disgwyl y byddai gorsaf sy'n targedu pobl ifanc yn chwarae cerddoriaeth lawer mwy modern na chaneuon hŷn/clasurol, i gyd-fynd â'i chymuned darged, neu y byddai gorsaf sy'n targedu cymuned Asiaidd yn fwy tebygol o chwarae cerddoriaeth sy'n ddiwylliannol berthnasol, yn hytrach na cherddoriaeth siart y DU, na gorsaf sy'n targedu cymuned ddaearyddol gyfan. Rydyn ni'n credu y gellir gorfodi'r gofynion hyn yn briodol drwy ofynion cymeriad gwasanaeth pob trwydded, heb fod angen rhestr o genres cerddorol penodol y mae'n rhaid eu chwarae bob wythnos.

**Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â chynnig Ofcom i gael gwared ar ofynion penodol o ran genres cerddoriaeth o'r Prif Ymrwymiadau (ac eithrio lle mae cerddoriaeth yn elfen graidd o gymeriad y gwasanaeth)? Rhowch ragor o wybodaeth a/neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb.**

## Cynnwys llafar

4.10 Ar hyn o bryd, mae'r Prif Ymrwymiadau yn cynnwys gofynion ar gyfer y mathau penodol o gynnwys llafar a fydd yn cael ei ddarparu bob wythnos. Mae'r rhain yn amrywio o ran cwmpas, ond maen nhw fel arfer yn ymdrin ag agweddau mwy 'safonol' fel newyddion lleol, gwybodaeth gymunedol a newyddion teithio, ochr yn ochr â gofynion mwy penodol mewn rhai trwyddedau, fel newyddion ar bynciau penodol (ee adloniant neu ffermio), neu raglenni fel rhaglenni comedi neu ddrama.

4.11 Yn ein barn ni, lle nad oes cyfeiriad penodol at fath o gynnwys llafar yn y disgrifiad cyffredinol o gymeriad y gwasanaeth, nid yw'n hanfodol i'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu i wrandawyr. Rydyn ni'n disgwyl y bydd pob gorsaf yn parhau i ddarparu cynnwys llafar sy'n berthnasol i'w cymuned darged ac y bydd hyn, yn y rhan fwyaf o achosion, yn cynnwys newyddion a gwybodaeth leol wedi'u cyflwyno mewn ffordd sy'n annog trafodaeth ac ymgysylltiad â chynulleidfaoedd, ac felly'n creu budd cymdeithasol i gynulleidfaoedd.

4.12 Fodd bynnag, nid ydym yn credu bod angen i Ofcom amodi ar wahân y mathau penodol o gynnwys llafar y mae'n rhaid ei ddarlledu bob wythnos, gan gydnabod newidiadau mewn arferion a diddordebau gwrandawyr dros amser, yn ogystal â heriau o ran argaeledd gwirfoddolwyr ar gyfer gorsafoedd radio bach.

**Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno â chynnig Ofcom i gael gwared ar ofynion penodol o ran cynnwys llafar o'r Prif Ymrwymiadau (ac eithrio lle mae cynnwys llafar penodol yn elfen graidd o gymeriad y gwasanaeth)? Rhowch ragor o wybodaeth a/neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb.**

## Allbwn gwreiddiol ac allbwn wedi'i gynhyrchu'n lleol

4.13 Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o'r Prif Ymrwymiadau yn cynnwys gofynion ar gyfer isafswm yr allbwn gwreiddiol ac allbwn wedi'i gynhyrchu'n lleol sy'n cael ei ddarlledu bob wythnos.

4.14 Mae allbwn gwreiddiol yn gynnwys sy'n cael ei gynhyrchu ar gyfer yr orsaf radio gymunedol berthnasol a'i ddarlledu gan yr orsaf honno gyntaf. Felly, nid yw'n cynnwys ailddarllediadau a rhaglenni syndicet. Nid yw chwaith yn cynnwys cerddoriaeth barhaus heb unrhyw gynnwys llafar gwreiddiol – ni fyddai awr o gerddoriaeth gyda hysbysebion ac identau gorsaf wedi'u gwasgaru yn ei phlith yn cael ei ystyried yn allbwn gwreiddiol.

4.15 Mae allbwn wedi'i gynhyrchu'n lleol yn golygu unrhyw allbwn sy'n cael ei gynhyrchu a'i ddarlledu o ardal ddarlledu gorsaf radio gymunedol. Yn wahanol i allbwn gwreiddiol, gall hyn gynnwys cerddoriaeth barhaus, os yw'r cynnwys hwnnw'n cael ei ddarlledu o'r ardal ddarlledu, ond nad yw'n cynnwys y rhan fwyaf o raglenni syndicet (sy'n cael ei gynhyrchu gan drydydd partïon mewn lleoliad arall) na darlledu o bell o'r tu allan i'r ardal ddarlledu.

4.16 Rydyn ni'n cynnig cael gwared ar y gofynion hyn o'r Prif Ymrwymiadau, gan nad ydynt o reidrwydd yn sicrhau unrhyw fudd i gymuned darged gorsaf. Rydyn ni'n cydnabod, o dan y dull gweithredu presennol, y gellir canfod bod gorsafoedd yn torri amodau eu trwydded am gyflawni ychydig yn is na'u cwotâu (yn enwedig lle mae gan rai gorsafoedd gwotâu dyddiol) er y gallent fel arall fod yn darparu cynnwys radio cymunedol o ansawdd uchel ar gyfer eu cymunedau targed.

4.17 Rydyn ni hefyd yn cydnabod bod ceisio llenwi cwota o gynnwys bob wythnos yn gallu rhwystro hyblygrwydd gorsafoedd i wasanaethu eu gwrandawyr yn y ffordd orau, ac y gall achosi anawsterau sylweddol i orsafoedd gwirfoddol sy'n cael trafferth cael gafael ar adnoddau.

4.18 Nid yw hyn yn golygu nad ydym yn credu bod allbwn gwreiddiol ac allbwn wedi'i gynhyrchu'n lleol yn hollbwysig ar gyfer gorsafoedd radio cymunedol – rydyn ni'n dal yn credu mai'r cynnwys hwn yw'r cynnwys mwyaf perthnasol a buddiol y gall gorsafoedd ei ddarparu i'w cymunedau, a'i fod yn helpu i greu budd cymdeithasol. Am y rheswm hwnnw, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, byddem yn parhau i ddisgwyl y byddai gorsafoedd yn darlledu cynnwys sy'n wreiddiol ac wedi'i gynhyrchu'n lleol bob dydd. Yn yr un modd â'r gofynion llafar a cherddoriaeth, credwn y gellir gorfodi'r gofyniad hwn drwy gymeriad gwasanaeth pob gorsaf.

**Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno â chynnig Ofcom i gael gwared ar y gofynion allbwn gwreiddiol o'r Prif Ymrwymiadau? Rhowch ragor o wybodaeth a/neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb.**

**Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno â chynnig Ofcom i gael gwared ar y gofynion allbwn wedi'i gynhyrchu'n lleol o'r Prif Ymrwymiadau? Rhowch ragor o wybodaeth a/neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb.**

## Gofynion iaith

4.19 Ar gyfer gorsafoedd sy'n gorfod darlledu ieithoedd ar wahân i Saesneg, mae'r Prif Ymrwymiadau ar hyn o bryd yn cynnwys gofynion penodol ar gyfer ieithoedd sy'n cael eu darlledu bob wythnos. Mewn llawer o achosion lle mae ieithoedd ar wahân i Saesneg wedi'u rhestru, mae hyn yn bwysig o ran sicrhau bod y trwyddedai'n darlledu i'w gymuned darged yn yr ieithoedd sy'n cael eu siarad yno. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, caiff gofynion iaith ar wahân i Saesneg eu rhestru, ond nid ydynt yn cyfateb i'r gymuned darged sydd wedi'i rhestru yng nghymeriad y gwasanaeth.

4.20 Rydyn ni'n cynnig cael gwared ar yr adran gofyniad iaith benodol yn fformat presennol y Prif Ymrwymiadau. Fodd bynnag, os ydyn ni'n credu bod yr ieithoedd sydd wedi'u rhestru yn bwysig i gymeriad cyffredinol y gwasanaeth ac na chyfeirir yn benodol atynt yng nghymeriad

y gwasanaeth, rydyn ni'n cynnig ychwanegu llinell at gymeriad y gwasanaeth yn nodi y bydd yr ieithoedd hyn yn cael eu darlledu ar yr orsaf.

4.21 Rydyn ni'n cydnabod bod gan rai gorsafoedd ofynion i ddarlledu yn Gymraeg. Yn unol â'n rhwymedigaethau o dan Fesur y Gymraeg, rydyn ni'n cynnig cadw'r gofyniad hwn yn yr holl Brif Ymrwymiadau perthnasol. Mae asesiad o'r effaith ar y Gymraeg ym mharagraff 4.48 isod.

**Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno â dull gweithredu arfaethedig Ofcom ar gyfer gofynion iaith gorsafoedd radio cymunedol? Rhowch ragor o wybodaeth a/neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb.**

### Safoni geiriad

4.22 Bydd cael gwared ar y gofynion a'r cwotâu penodol o'r Prif Ymrwymiadau yn golygu bod gwaith Ofcom o orfodi cydymffurfedd â'r Prif Ymrwymiadau yn dibynnu'n fwy helaeth ar gymeriad gwasanaeth y trwyddedeion. Ar hyn o bryd, rydyn ni'n cydnabod bod disgrifiadau cymeriad gwasanaeth yn gallu amrywio'n sylweddol rhwng trwyddedeion, a hynny o ran lefel y manylder a'r geiriad sy'n cael ei ddefnyddio.

4.23 I sicrhau rhagor o gysondeb ar draws trwyddedau, rydyn ni'n cynnig, fel rhan o'r broses amrywio trwyddedau sydd wedi'i hamlinellu isod, y byddem yn ceisio safoni rhywfaint o'r iaith sy'n cael ei defnyddio mewn disgrifiadau cymeriad gwasanaeth rhwng gwasanaethau o'r un natur.

4.24 Er enghraifft, byddem yn ceisio sicrhau bod disgrifiadau'n gyson yn fras ar draws gwasanaethau daearyddol (gan gynnwys gwasanaethau ar gyfer poblogaeth gyfan ardal benodol), gwasanaethau ar gyfer cymuned ethnig benodol, gwasanaethau crefyddol neu wasanaethau sydd wedi'u hanelu at grŵp diddordeb penodol (fel rhai genres cerddoriaeth). Byddai hyn yn helpu i sicrhau cysondeb yn null gorfodi Ofcom ar draws trwyddedeion.

4.25 Rydyn ni'n cydnabod bod gan lawer o orsafoedd agweddau unigryw ar ddarpariaeth eu gwasanaeth sy'n rhan o gymeriad eu gwasanaeth, ac ni fyddem yn ceisio cael gwared ar yr agweddau hyn. Fodd bynnag, efallai y byddwn yn ceisio egluro unrhyw eiriad sy'n ymddangos yn amwys. Fel y nodir yn fanylach isod, dim ond ar ôl rhoi cyfle i'r trwyddedeion yr effeithir arnynt gyflwyno sylwadau y byddwn yn gwneud unrhyw newidiadau o'r fath

**Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno â dull gweithredu arfaethedig Ofcom ar gyfer safoni geiriad (lle bo hynny'n briodol) yn y disgrifiadau o gymeriad gwasanaeth gorsafoedd radio cymunedol? Rhowch ragor o wybodaeth a/neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb.**

## Asesu effaith ein cynigion

4.26 Yn y paragraffau isod, rydyn ni wedi asesu effaith debygol ein cynigion, gan ystyried ein rhwymedigaethau cyfreithiol o dan y canlynol:

a) Adran 7 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau, sy'n mynnu ein bod yn cynnal ac yn cyhoeddi asesiad o effaith debygol gweithredu cynigion a fyddai'n debygol o gael effaith sylweddol ar fusnesau neu'r cyhoedd, neu pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom.

b) Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998, sy'n mynnu ein bod yn ystyried yr effeithiau posib ar gydraddoldeb.
c) Adran 3(4) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau, sy'n mynnu ein bod yn ystyried anghenion a buddiannau grwpiau penodol o bobl.
d) Mesur y Gymraeg 2011, sy'n mynnu ein bod yn ystyried effaith ein cynigion ar y Gymraeg.

4.27 Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol wedi'i nodi'n llawnach yn Atodiad 2 isod.

## Yr effaith ar drwyddedeion

4.28 Rydyn ni'n credu y bydd y cynigion hyn yn cael effaith gadarnhaol gyffredinol ar drwyddedeion, drwy gael gwared ar rai o'r gofynion mwy cyfyngol arnynt a rhoi rhagor o hyblygrwydd iddynt o ran ystyried y ffordd orau o wasanaethu eu cymunedau drwy greu budd cymdeithasol ar yr awyr ac oddi ar yr awyr.

4.29 Mae adborth gan drwyddedeion wedi awgrymu bod llawer yn cael trafferth recriwtio a chadw gwirfoddolwyr, yn enwedig yn dilyn pandemig Covid-19 a'r argyfwng costau byw dilynol, sy'n gallu cael effaith sylweddol ar allu trwyddedeion i gyflawni eu Prif Ymrwymiadau o ran allbwn gwreiddiol ac allbwn wedi'i gynhyrchu'n lleol. Rydyn ni hefyd wedi clywed gan drwyddedeion bod bodloni gofynion allbwn ac allbwn wedi'i gynhyrchu'n lleol yn gallu bod yn anodd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle mae cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus i leoliadau stiwdio yn wael, neu ar gyfer gwirfoddolwyr anabl. Mae'r mathau hyn o broblemau yn cael eu cadarnhau yn y cynnydd mewn ymchwiliadau i gydymffurfedd trwyddedeion â'r agweddau hyn ar y Prif Ymrwymiadau dros y blynyddoedd diwethaf. Rydyn ni'n credu y bydd ein newidiadau arfaethedig yn lleddfu rhywfaint o'r pwysau sydd ar drwyddedeion i fodloni'r cwotâu penodol yn eu Prif Ymrwymiadau ar hyn o bryd. Rydyn ni hefyd yn credu y bydd ein cynigion yn rhoi rhagor o hyblygrwydd i'r trwyddedeion hyn o ran lleoliad eu darllediadau, gan gynnal y gofyniad i drwyddedeion gael stiwdio ffisegol yn ardal ddarlledu'r gwasanaeth. Yn ein barn ni, mae hyn yn bwysig ar gyfer creu budd cymdeithasol oddi ar yr awyr a darparu mynediad i'r gymuned darged.

4.30 Yn ogystal â hynny, rydyn ni'n credu y bydd cael gwared ar ofynion penodol sy'n ymwneud ag allbwn cerddoriaeth a llafar yn cael effaith gadarnhaol ar drwyddedeion, oherwydd byddant yn gallu ymateb yn haws i newidiadau mewn anghenion cynulleidfaoedd a darparu cynnwys sy'n fwy addas i'w cymunedau targed, heb orfod gofyn am gymeradwyaeth Ofcom ar gyfer newidiadau. Rydyn ni hefyd yn cydnabod bod trwyddedeion, mewn rhai achosion, yn cynnig mathau o gynnwys yn eu ceisiadau gwreiddiol a'u Prif Ymrwymiadau ar sail yr adnoddau yr oedd ganddynt ar y pryd, ac efallai nad yw hyn yn berthnasol mwyach.

4.31 Rydyn ni'n cydnabod bod potensial ar gyfer rhai effeithiau negyddol ar drwyddedeion drwy gael gwared ar yr agweddau penodol hyn ar y Prif Ymrwymiadau. Er enghraifft, er y bydd trwyddedeion yn gyfarwydd â chydymffurfio â Phrif Ymrwymiadau sy'n seiliedig ar gwotâu, sy'n rhoi sicrwydd i drwyddedai o ran a ydynt yn cydymffurfio, efallai y bydd rhai trwyddedeion yn ei chael hi'n anoddach penderfynu beth sydd angen iddynt ei ddarlledu er mwyn cydymffurfio â'r Prif Ymrwymiadau mwy goddrychol yn unig. Gallai hyn effeithio'n fwy sylweddol ar rai is-grwpiau nag eraill (fel trwyddedeion sy'n niwroamrywiol, trwyddedeion hŷn neu drwyddedeion nad Saesneg yw eu mamiaith), ond nid oes tystiolaeth i awgrymu y bydd hyn yn digwydd.

4.32 I liniaru'r effeithiau posib hyn cyn belled ag y bo modd, rydyn ni wedi cynnig safoni rhywfaint o'r geiriad mewn disgrifiadau cymeriad gwasanaeth lle bo hynny'n briodol. Bydd hyn yn

caniatáu rhagor o gysondeb wrth inni orfodi'r Prif Ymrwymiadau a bydd yn caniatáu i drwyddedeion rannu'r arferion gorau ar draws y sector yn haws.

4.33 Ar ben hynny, er na fyddai'n briodol i Ofcom ddweud wrth drwyddedeion sut y dylent gyflawni eu Prif Ymrwymiadau, rydyn ni wedi cynnig rhywfaint o egwyddorion cydymffurfio eang ar ddiwedd yr adran hon. Bwriad y rhain yw darparu rhywfaint o egwyddorion lefel uchel i drwyddedeion eu cadw mewn cof wrth ystyried a ydynt yn cydymffurfio â'u Prif Ymrwymiadau. Rydyn ni hefyd yn bwriadu ystyried yr egwyddorion hyn wrth benderfynu a ddylid agor ymchwiliad ffurfiol i achos posib o drwyddedai yn torri ei Brif Ymrwymiadau, neu fel rhan o unrhyw ymchwiliad ffurfiol o'r fath.

4.34 Nodwn hefyd, er ein bod yn cael gwared ar agweddau mesuradwy ar y Prif Ymrwymiadau, mae gofynion cymeriad gwasanaeth wedi bod ar waith ers sefydlu radio cymunedol ac nid ydym wedi gweld tystiolaeth bod nifer sylweddol o drwyddedeion yn cael trafferth deall sut mae cydymffurfio â'r agwedd hon ar eu Prif Ymrwymiadau.

## Yr effaith ar gymunedau targed

4.35 Yn gyffredinol, rydyn ni'n credu y bydd ein newidiadau o fudd i gymunedau targed. Mae'r cymunedau targed hyn yn aml yn cynnwys grwpiau o bobl ddifreintiedig a phobl sy'n cael eu tangynrychioli, sy'n rhannu nodweddion penodol (gan gynnwys nodweddion gwarchodedig o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb).

4.36 Fel yr esbonnir uchod, dylai ein cynigion roi rhagor o hyblygrwydd i orsafoedd, er mwyn iddynt allu canolbwyntio ar greu budd cymdeithasol i'w cymunedau targed. Wrth wneud hynny, rydyn ni'n credu y bydd ein cynigion yn caniatáu i drwyddedeion fodloni anghenion eu cymunedau targed yn well a gwella cyfleoedd cyfartal i grwpiau sy'n rhannu nodweddion penodol. Dylai trwyddedeion hefyd gael rhagor o amser i ganolbwyntio ar faterion pwysig fel mynd i'r afael â rhagfarn yn eu cymunedau a cheisio dod â grwpiau rhanedig at ei gilydd, a chefnogi cyd-ddealltwriaeth rhyngddynt. Wrth wneud hynny, credwn y dylai ein cynnig hefyd helpu i feithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau.

4.37 Rydyn ni'n cydnabod, yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth arall, y gallai dileu cwotâu mewn Prif Ymrwymiadau gael effaith niweidiol ar y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu i wrandawyr mewn cymuned darged benodol gan na fyddai'n rhaid i'r trwyddedai fodloni gofynion penodol a lefelau allbwn sylfaenol mwyach yn ystod pob diwrnod a/neu wythnos. Gallai hyn olygu bod gwasanaeth radio cymunedol yn dod yn llai cysylltiedig â'r gymuned darged berthnasol gan arwain at ostyngiad dilynol yn y budd cymdeithasol sy'n cael ei greu gan wasanaethau o'r fath. O ystyried natur radio cymunedol, sy'n aml yn targedu grwpiau a chymunedau sy'n cael eu tangynrychioli, mae potensial i hyn gael effaith anghymesur ar y grwpiau hyn. Mae risg hefyd y gallai rhai cynulleidfaoedd, yn enwedig y rhai sy'n siarad ieithoedd ar wahân i Saesneg, weld gostyngiad mewn gwasanaeth drwy'r gofynion hyn, lle nad yw'r gofyniad iaith penodol neu'r math o raglenni llafar wedi'u cynnwys yn y Prif Ymrwymiadau mwyach.[2]

4.38 Fodd bynnag, rydyn ni'n hyderus na fydd y risgiau hyn yn cael eu gwireddu yn y rhan fwyaf o achosion. Fel y nodir uchod, rydyn ni'n credu y bydd cael gwared ar yr elfennau penodol hyn o'r Prif Ymrwymiadau yn rhoi rhagor o hyblygrwydd i drwyddedeion greu'r budd cymdeithasol gorau posib i'w cymuned darged, a hynny ar yr awyr ac oddi ar yr awyr.

---

[2] Rydyn ni'n trafod y Prif Ymrwymiadau sy'n ymwneud â'r gofynion o ran y Gymraeg ym mharagraffau […] isod.

4.39 Rydyn ni hefyd yn credu, er bod yr elfennau hyn o'r Prif Ymrwymiadau wedi sicrhau lefelau gwasanaeth sylfaenol, na fydd y rhan fwyaf o orsafoedd radio cymunedol, fel sefydliadau dim-er-elw sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr, yn lleihau'r ddarpariaeth o wasanaethau yn absenoldeb y cwotâu hyn. Yn wir, gallai rhoi hyblygrwydd ychwanegol o ran adnoddau i drwyddedeion ehangu'r cyfleoedd i'w cymuned darged fod yn rhan o'u gwasanaeth radio cymunedol, oherwydd efallai y bydd gan drwyddedeion ragor o adnoddau i'w neilltuo i fudd cymdeithasol oddi ar yr awyr, fel hyfforddiant, yn enwedig ar gyfer grwpiau fel pobl ag anableddau y gallai eu hyfforddiant fod yn fwy cymhleth ac yn gofyn am ragor o adnoddau gan drwyddedeion.

4.40 Rydyn ni hefyd yn bwriadu adolygu pob set o Brif Ymrwymiadau, gan roi cyfle i drwyddedeion wneud sylwadau, i wneud yn siŵr bod agweddau craidd ar y Prif Ymrwymiadau yn cael eu cadw a bod eu cymuned darged yn parhau i gael ei gwasanaethu'n effeithiol. Pan fyddwn yn credu bod gan drwyddedeion agweddau ar eu Prif Ymrwymiadau o werth penodol i'w cymuned darged, fel mathau penodol o allbwn llafar neu gerddoriaeth, byddwn yn gwneud yn siŵr bod yr elfennau hyn yn parhau i gael eu hymgorffori yn y Prif Ymrwymiadau ac felly y gellir eu gorfodi.

4.41 Yn fwy cyffredinol, bydd ein dull gorfodi yn gwneud yn siŵr bod lefelau gwasanaeth sylfaenol yn cael eu cynnal. Rydyn ni'n disgwyl i drwyddedeion allu dangos yn glir sut maen nhw'n cyflawni ar gyfer eu cymunedau targed ar yr awyr, er y cynnig i gael gwared ar gwotâu ar gyfer y math hwn o gynnwys.

4.42 Yn benodol, er bod yn rhaid ystyried pob achos ar ei haeddiant ei hun, nid ydym yn credu y gall y rhan fwyaf o wasanaethau gyflawni eu rhwymedigaethau o ran cymeriad gwasanaeth os mai ychydig iawn o allbwn gwreiddiol neu allbwn wedi'i gynhyrchu'n lleol maen nhw'n ei ddarparu bob wythnos. Felly, er ein bod yn cydnabod y potensial ar gyfer rhai effeithiau negyddol ar wrandawyr (gan gynnwys grwpiau o bobl sy'n rhannu nodweddion penodol) o'r newidiadau hyn, rydyn ni'n credu bod ein dull gweithredu arfaethedig yn lliniaru'r effeithiau posib hyn ac na ddylai fod yn rhwystr i'r newidiadau rydyn ni'n eu cynnig. Am y rhesymau wedi'u nodi uchod, rydyn ni'n credu y bydd ein cynigion yn diogelu'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu i gynulleidfaoedd ac yn sicrhau manteision cyffredinol i gymunedau targed.

## Yr effaith ar sut mae Ofcom yn cyflawni ei swyddogaethau rheoleiddio

4.43 Fel yr esbonnir yn Adran 3 uchod, dros y blynyddoedd diwethaf rydyn ni wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y cwynion mewn cysylltiad â gorsafoedd radio cymunedol sy'n ymddangos eu bod yn torri eu Prif Ymrwymiadau, yn enwedig mewn perthynas ag allbwn gwreiddiol ac allbwn sy'n cael ei gynhyrchu'n lleol. Fodd bynnag, os yw achos o dorri yn ymwneud â methu cyrraedd cwota penodol (yn enwedig toriad bach mewn cysylltiad ag un cwota ar ddiwrnod penodol), mae manteision ymchwiliad yn debygol o fod yn fwy cyfyngedig. Mae hyn yn debygol iawn o fod yn wir pan fydd trwyddedai fel arall yn cydymffurfio â'i Brif Ymrwymiadau ac yn darparu gwerth cymdeithasol sylweddol i'w gymuned darged. Mae asesu cwynion, ac unrhyw ymchwiliadau ffurfiol dilynol, yn defnyddio adnoddau sylweddol gan Ofcom a'r trwyddedai, ac yn darparu manteision cyfyngedig i gymunedau targed, yn enwedig pan fo'r diffyg yn fach. Dylai ein cynnig arwain at lai o gwynion yn ymwneud â methiant i gydymffurfio â chwotâu penodol a llai o ymchwiliadau ffurfiol i faterion sy'n debygol o arwain at niwed mwy cyfyngedig i wrandawyr.

4.44 Yn yr un modd, ar hyn o bryd rydyn ni'n prosesu nifer cymharol uchel o geisiadau i newid Prif Ymrwymiadau sy'n ymwneud yn gyfan gwbl â'r agweddau ar y Prif Ymrwymiadau rydyn ni'n cynnig eu dileu, yn enwedig ceisiadau i leihau'r oriau o allbwn gwreiddiol ac allbwn wedi'i

gynhyrchu'n lleol y mae'n rhaid i orsafoedd eu darlledu bob wythnos. Byddai'r newidiadau hyn hefyd yn rhyddhau'r adnoddau sy'n cael eu defnyddio i brosesu'r ceisiadau hyn.

4.45 Rydyn ni'n credu y bydd y cynigion hyn, a fydd yn symud ffocws ein prosesau gorfodi oddi wrth agweddau mesuradwy ar Brif Ymrwymiadau trwyddedai, yn golygu ein bod yn gallu canolbwyntio ar gydymffurfedd cyffredinol trwyddedeion â'r gofyniad budd cymdeithasol ar yr awyr ac oddi ar yr awyr, a chymeriad y gwasanaeth yn ei gyfanrwydd. Dylai hyn sicrhau bod gwrandawyr a grwpiau penodol y mae gorsafoedd i fod i'w gwasanaethu yn cael eu diogelu'n well, a'n galluogi i ganolbwyntio ein hadnoddau ar feysydd lle mae rhagor o botensial o niwed i gymunedau targed.

4.46 Y tu hwnt i adnoddau, mae'r newidiadau arfaethedig yn debygol o gael effaith ar y ffordd rydyn ni'n cyflawni ein swyddogaeth orfodi, oherwydd bydd gennym lai o ymchwiliadau sy'n seiliedig ar gwotâu. Rydyn ni'n cydnabod y bydd natur yr ymchwiliadau y byddwn yn eu cynnal yn mynnu ein bod yn gwneud penderfyniadau mwy goddrychol ar sail ein hasesiad o'r dystiolaeth, yn hytrach na'u bod yn seiliedig ar gwotâu llym sydd wedi neu heb gael eu bodloni. Mae gennym brofiad sylweddol o asesu cydymffurfedd â gofynion mwy goddrychol ac rydyn ni'n hyderus y byddwn yn gallu parhau i gyflawni ein swyddogaethau gorfodi'n effeithiol mewn ffordd sy'n cynnal lefelau priodol o graffu ar gydymffurfedd trwyddedeion ag agweddau craidd ar eu Prif Ymrwymiadau.

4.47 Fel y nodir uchod, rydyn ni'n credu y bydd y cynigion hyn yn rhyddhau adnoddau Ofcom, sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd i brosesu achosion gorfodi a cheisiadau i newid Prif Ymrwymiadau sy'n seiliedig ar gwotâu ar gyfer dibenion mwy effeithiol eraill, gan gynnwys meysydd lle mae'r potensial ar gyfer niwed i gymunedau targed yn fwy difrifol ac uniongyrchol.

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

4.48 Mae hefyd yn ofynnol i ni ystyried y Gymraeg wrth lunio, adolygu neu ddiwygio polisïau sy'n berthnasol i Gymru. Mae ein rhwymedigaethau o ran y Gymraeg wedi'u hamlinellu yn Atodiad A2 isod.

4.49 Fel yr esbonnir yn Adran 4 uchod, rydyn ni'n cynnig y bydd yr holl ofynion o ran y Gymraeg sydd ar waith ar hyn o bryd yn cael eu cynnal mewn Prif Ymrwymiadau yn dilyn y broses hon. Felly, nid ydym yn credu bod ein cynigion yn cael unrhyw effaith ar ein rhwymedigaethau o ran y Gymraeg.

4.50 Bydd cadw gofyniad gorsafoedd perthnasol i ddarlledu yn Gymraeg yn sicrhau nad oes lleihad yn y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg o ganlyniad i'r cynigion hyn. Rydyn ni wedi ystyried a oes ffyrdd y gallai'r cynigion hyn gael effaith gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg, ond gan nad ydym yn cynnig gwneud newidiadau sylweddol i gymeriad gwasanaeth gorsafoedd, nid ydym yn credu ei bod yn briodol gosod rhwymedigaethau ychwanegol o ran y Gymraeg.

**Cwestiwn 7: Ydych chi'n cytuno ag asesiad Ofcom o effaith ei newidiadau arfaethedig (gan gynnwys yr effaith bosib ar grwpiau penodol o bobl, a'r effaith ar gydraddoldeb)? Rhowch ragor o wybodaeth a/neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb.**

**Cwestiwn 8: A oes unrhyw effaith yn sgil y cynigion hyn nad yw Ofcom wedi'i chydnabod yn y ddogfen hon?**

**Cwestiwn 9: Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o effaith bosib ein cynigion ar y Gymraeg? Rhowch ragor o wybodaeth a/neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb.**

**Cwestiwn 10: Ydych chi'n credu y byddai modd llunio neu ddiwygio ein cynnig er mwyn sicrhau ei fod yn cael effeithiau positif, neu'n lleihau/cael gwared ar unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

## Egwyddorion cydymffurfio

4.51 Fel y nodir uchod, rydyn ni'n cydnabod nad yw cael gwared ar yr agweddau penodol hyn ar y Prif Ymrwymiadau yn cynnig yr un lefel o sicrwydd a gallai ei gwneud yn anoddach i rai trwyddedeion ddeall sut gallant gydymffurfio â'u Prif Ymrwymiadau. Nid yw'n briodol i Ofcom ddweud wrth drwyddedeion sut y dylent gydymffurfio ag amodau eu trwydded. Serch hynny, rydyn ni wedi amlinellu rhywfaint o egwyddorion eang isod. Rydyn ni'n cynnig bod trwyddedeion cadw'r rhain mewn cof wrth ystyried a ydynt yn cydymffurfio â'u Prif Ymrwymiadau. Rydyn ni hefyd yn bwriadu ystyried yr egwyddorion hyn wrth benderfynu a ddylid agor ymchwiliad ffurfiol i achos posib o drwyddedai yn torri ei Brif Ymrwymiadau, neu fel rhan o unrhyw ymchwiliad ffurfiol o'r fath.

a) Dull Ofcom o asesu cwynion am gydymffurfedd gorsafoedd â'u Prif Ymrwymiadau yw asesu cydymffurfedd dros wythnos, gan ddefnyddio recordiadau a gwybodaeth ysgrifenedig wedi'u darparu gan yr orsaf, ac nid ydym yn cynnig newid hyn.

b) Wrth ystyried cydymffurfedd â rhwymedigaethau cymeriad y gwasanaeth, dylai gorsafoedd sicrhau ei bod yn glir o'u cynnwys pwy yw eu cymuned darged bob amser (neu'r rhan fwyaf o'r amser o leiaf). Rydyn ni'n yn disgwyl y byddai gorsaf sydd wedi'i hanelu at leiafrif ethnig penodol, er enghraifft, yn swnio'n wahanol i orsaf sydd â chymeriad gwasanaeth 'prif ffrwd'.

c) Dylai trwyddedeion ystyried a yw eu holl raglenni wedi'u hanelu at eu cymuned darged, neu a oes dibyniaeth fwy helaeth ar rai agweddau ar raglenni, ac ystyried y pwysoliad sy'n cael ei roi ar wahanol agweddau ar raglenni.

d) I wasanaethu'r gymuned darged, mae cael cyflwynwyr o'r gymuned darged yn ddymunol o ran darparu cynnwys perthnasol i gyflawni cymeriad y gwasanaeth a chyflawni amcanion yr orsaf o ran budd cymdeithasol. Beth bynnag, dylai rhaglenni apelio at y gymuned darged ac adlewyrchu cymeriad y gwasanaeth.

e) Lle cyfeirir at raglenni arbenigol/penodol yng nghymeriad gwasanaeth gorsaf, rydyn ni'n cydnabod y gallai hynny fod yn rhan fach yn unig o raglenni cyffredinol gorsaf. Fodd bynnag, dylai trwyddedeion sicrhau bod y rhaglenni hyn yn cael eu darlledu'n gyson, eu hamserlennu'n briodol, a bod cyfeiriadau priodol atynt i wneud yn siŵr bod gwrandawyr yn ymwybodol ohonynt ac yn gallu elwa arnynt. Er enghraifft, dylai gorsafoedd sy'n cynnwys cyfeiriad at iechyd a lles yng nghymeriad eu gwasanaeth ystyried sut mae hyn yn cael ei adlewyrchu ar draws yr amserlen, gan ystyried pa ddiwrnodau o'r wythnos ac adegau o'r dydd sydd fwyaf priodol i ddarlledu'r cynnwys, a sut mae rhaglenni o'r fath yn cael eu hyrwyddo ar yr awyr.

f) Er ein bod yn cynnig cael gwared ar y cwotâu penodol sy’n ymwneud ag allbwn gwreiddiol ac allbwn wedi’i gynhyrchu’n lleol o’r Prif Ymrwymiadau, rydyn ni’n disgwyl y bydd y rhan fwyaf o orsafoedd yn parhau i ddarlledu rhywfaint o allbwn gwreiddiol ac allbwn wedi’i gynhyrchu’n lleol bob dydd. Yn gyffredinol, byddem yn credu y byddai gorsaf nad yw’n darlledu unrhyw gynnwys o’r math hwn yn ei chael hi’n anodd cyflawni cymeriad ei gwasanaeth a chreu budd cymdeithasol i’w chymuned darged. Os bydd Ofcom yn asesu cydymffurfedd trwyddedai â’i Brif Ymrwymiadau (o ganlyniad i gŵyn neu waith monitro), dylai trwyddedai allu cyfiawnhau i Ofcom sut mae faint o gynnwys gwreiddiol a chynnwys wedi’i gynhyrchu’n lleol y mae’n ei ddarlledu yn ei alluogi i gyflawni ei ymrwymiadau o ran cymeriad y gwasanaeth a budd cymdeithasol.

**Cwestiwn 11: Ydych chi’n cytuno â’r egwyddorion cydymffurfio rydyn ni’n eu cynnig?**

# 5. Y camau nesaf a gynigir

5.1 Bydd yr ymgynghoriad hwn ar agor am 12 wythnos. Rydyn ni'n gwahodd rhanddeiliaid i ymateb unrhyw bryd cyn i'r ymgynghoriad ddod i ben, gan ateb unrhyw un neu bob un o gwestiynau'r ymgynghoriad.

5.2 Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, byddwn yn ystyried yr ymatebion a ddaeth i law, ac yna byddwn yn cyhoeddi datganiad yn crynhoi'r ymatebion hyn ac yn nodi ein penderfyniadau terfynol. Byddwn yn ystyried a ddylai unrhyw ymatebion a/neu dystiolaeth a ddaw i law newid ein cynigion.

5.3 Gall Ofcom ddarparu gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau ar gais, ee PDF hygyrch, print bras, hawdd ei ddarllen, recordiad sain neu braille. Os byddwch yn rhoi gwybod i ni pa wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac ym mha fformat, byddwn yn ystyried y cais ac yn ymateb o fewn 21 diwrnod.

## Y broses o amrywio trwydded

5.4 Os byddwn yn penderfynu gwneud y newidiadau hyn ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, bydd Ofcom yn defnyddio ei bwerau o dan a86(5) o Ddeddf Darlledu 1990 i amrywio trwyddedau presennol, yn unol â chymal 21 pob trwydded.

5.5 Fel rhan o'r broses honno, bydd Ofcom yn asesu Prif Ymrwymiadau pob trwyddedai ac yn cyrraedd safbwynt rhagarweiniol ynghylch ar ba agweddau y dylid cael gwared, ac a oes unrhyw beth y mae angen ei ychwanegu at gymeriad y gwasanaeth, neu ei egluro ynddo.

5.6 Byddwn wedyn yn ysgrifennu at drwyddedeion gyda'n fersiwn arfaethedig o gymeriad eu gwasanaeth er mwyn caniatáu i drwyddedeion wneud sylwadau, fel sy'n ofynnol o dan a86(5)(b) o Ddeddf Darlledu 1990 cyn i'r trwyddedau gael eu hamrywio.

5.7 Ni fydd y broses hon yn gofyn am ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer pob gorsaf oherwydd ni fydd unrhyw newid sylweddol i gymeriad gwasanaeth y gorsafoedd dan sylw. Felly, nid ydym yn credu bod ein cynigion yn berthnasol i adran 106(1A) o Ddeddf Darlledu 1990.

**Cwestiwn 12: Ydych chi'n cytuno â'r camau nesaf a gynigir gan Ofcom ar gyfer amrywio'r Prif Ymrwymiadau?**

# A1. Fframwaith Cyfreithiol

## Fframwaith statudol

A1.1 Mae testun llawn y darpariaethau deddfwriaethol sy'n berthnasol i bwnc yr ymgynghoriad hwn fel a ganlyn.

Ceir llawer o ddyfyniadau o ddeddfwriaeth isod. Nid yw'r ddeddfwriaeth wedi ei gwneud yn Gymraeg, felly nid yw'r dyfyniadau ar gael yn Gymraeg.

## Deddf Darlledu 1990

A1.2 Mae Adran 85 o Ddeddf Darlledu 1990 yn rhoi pŵer i Ofcom roi trwyddedau i ddarparu gwasanaethau radio annibynnol perthnasol, ac yn mynnu bod Ofcom yn gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau bod ystod ac amrywiaeth o wasanaethau radio lleol yn cael eu darparu.

*85 Licensing functions of Authority.*

*(1)Subject to subsection (2), OFCOM may, in accordance with the following provisions of this Part, grant [F2 licences to provide relevant independent radio services.*

*(2)OFCOM shall do all that they can to secure the provision within the United Kingdom of—*

*(a)a diversity of national services each catering for tastes and interests different from those catered for by the others and of which—*

*(i)one is a service the greater part of which consists in the broadcasting of spoken material, and*

*(ii)another is a service which consists, wholly or mainly, in the broadcasting of music which, in the opinion of OFCOM, is not pop music; and*

*(b)a range and diversity of local services.*

A1.3 Mae adran 86 o'r Ddeddf yn rhoi pŵer i Ofcom amrywio trwyddedau a roddir o dan adran 85, ac yn mynnu bod Ofcom yn rhoi cyfle i drwyddedeion wneud sylwadau am amrywiad.

*86 Licences under Part III.*

*…*

*(5) OFCOM may vary a licence by a notice served on the licence holder if—*

*(a)in the case of a variation of the period for which the licence is to continue in force, the licence holder consents; or*

*(b)in the case of any other variation, the licence holder has been given a reasonable opportunity of making representations to OFCOM about the variation.*

A1.4 Mae Adran 105 o'r Ddeddf yn nodi'r meini prawf y mae'n rhaid i Ofcom eu hystyried wrth benderfynu ar geisiadau am drwyddedau. Gwnaed ychwanegiadau a diwygiadau pellach i'r adran hon gan yr Atodlen i Orchymyn Radio Cymunedol 2004 fel y nodir isod.

*105 Special requirements relating to grant of local licences.*

*Where OFCOM have published a notice under section 104(1), they shall, in determining whether, or to whom, to grant the local licence in question, have regard to the following matters, namely—*

*(a)the ability of each of the applicants for the licence to maintain, throughout the period for which the licence would be in force, the service which he proposes to provide;*

*(b)the extent to which any such proposed service would cater for the tastes and interests of persons living in the area or locality for which the service would be provided, and, where it is proposed to cater for any particular tastes and interests of such persons, the extent to which the service would cater for those tastes and interests;*

*(c)the extent to which any such proposed service would broaden the range of programmes available by way of local services to persons living in the area or locality for which it would be provided, and, in particular, the extent to which the service would cater for tastes and interests different from those already catered for by local services provided for that area or locality; and*

*(d)the extent to which there is evidence that, amongst persons living in that area or locality, there is a demand for, or support for, the provision of the proposed service.*

A1.5 Mae Adran 106 o'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn gosod amodau o'r fath mewn trwyddedau fel y bo'n briodol i sicrhau bod cymeriad y gwasanaeth yn cael ei gynnal drwy gydol cyfnod y drwydded.

*106 Requirements as to character and coverage of national and local services.*

*(1)A national or local licence shall include such conditions as appear to OFCOM to be appropriate for securing that the character of the licensed service, as proposed by the licence holder when making his application, is maintained during the period for which the licence is in force.*

*(1A)Conditions included in a licence for the purposes of subsection (1) may provide that OFCOM may consent to a departure from the character of the licensed service if, and only if, they are satisfied—*

*(a)that the departure would not substantially alter the character of the service;*

*(b)that the departure would not narrow the range of programmes available by way of relevant independent radio services to persons living in the area or locality for which the service is licensed to be provided;*

*(c)that, in the case of a local licence, the departure would be conducive to the maintenance or promotion of fair and effective competition in that area or locality;*

*(d)that, in the case of a local licence, there is evidence that, amongst persons living in that area or locality, there is a significant demand for, or significant support for, the change that would result from the departure; or*

*(e)that, in the case of a local licence—*

*(i)the departure would result from programmes included in the licensed service ceasing to be made at premises in the area or locality for which the service is provided, but*

*(ii)those programmes would continue to be made wholly or partly at premises within the approved area (as defined in section 314 of the Communications Act 2003 (local content and character of services)*

*(1B) The matters to which OFCOM must have regard in determining for the purposes of this section the character of a service provided under a local licence include, in particular, the selection of spoken material and music in programmes included in the service.*

*(2)A national or local licence shall include conditions requiring the licence holder to secure that the licensed service serves so much of the area or locality for which it is licensed to be provided as is for the time being reasonably practicable.*

## Gorchymyn Radio Cymunedol 2004

A1.6 Mae Erthygl 3 o'r Gorchymyn yn amlinellu nodweddion gwasanaethau radio cymunedol.

*3.—(1) It is a characteristic of community radio services that they are local services provided primarily—*

*(a)for the good of members of the public, or of particular communities, and*

*(b)in order to deliver social gain,*

*rather than primarily for commercial reasons or for the financial or other material gain of the individuals involved in providing the service.*

*(2) It is a characteristic of every community radio service that it is intended primarily to serve one or more communities (whether or not it also serves other members of the public).*

*(3) It is a characteristic of every community radio service that the person providing the service—*

*(a)does not do so in order to make a financial profit by so doing, and*

*(b)uses any profit that is produced in the provision of the service wholly and exclusively for securing or improving the future provision of the service, or for the delivery of social gain to members of the public or the community that the service is intended to serve.*

*(4) It is a characteristic of every community radio service that members of the community it is intended to serve are given opportunities to participate in the operation and management of the service.*

*(5) It is a characteristic of every community radio service that, in respect of the provision of that service, the person providing the service makes himself accountable to the community that the service is intended to serve.*

A1.7 Mae Erthygl 2 o Orchymyn Radio Cymunedol 2004 yn diffinio 'cymuned' a 'budd cymdeithasol' fel a ganlyn.

*(1)*

*…*

*"community" means—*

*(a)the persons who live or work or undergo education or training in a particular area or locality, or*

*(b)persons who (whether or not they fall within paragraph (a)) have one or more interests or characteristics in common;*

*…*

*…*

*(2) In relation to a community radio service, "social gain" means the achievement, in respect of individuals or groups of individuals in the community that the service is intended to serve, or in respect of other members of the public, of the following objectives—*

*(a)the provision of sound broadcasting services to individuals who are otherwise underserved by such services,*

*(b)the facilitation of discussion and the expression of opinion,*

*(c)the provision (whether by means of programmes included in the service or otherwise) of education or training to individuals not employed by the person providing the service, and*

*(d)the better understanding of the particular community and the strengthening of links within it,*

*and may also include the achievement of other objectives of a social nature and, in particular, those mentioned in paragraph (3).*

*(3) Those objectives are—*

*(a)the delivery of services provided by local authorities and other services of a social nature and the increasing, and wider dissemination, of knowledge about those services and about local amenities;*

*(b)the promotion of economic development and of social enterprises;*

*(c)the promotion of employment;*

*(d)the provision of opportunities for the gaining of work experience;*

*(e)the promotion of social inclusion;*

*(f)the promotion of cultural and linguistic diversity;*

*(g)the promotion of civic participation and volunteering.*

A1.8 Mae'r Atodlen i'r Gorchymyn yn nodi ychwanegiadau/diwygiadau i Ddeddf Darlledu 1990.

A1.9 Mae paragraff 5 o'r Atodlen yn gwneud ychwanegiadau/diwygiadau i adran 105 o Ddeddf Darlledu 1990.

*…*

*5.—(1) Section 105(1) (which makes provision as to the matters to which OFCOM are required to have regard in determining whether, and to whom, to grant local licences) shall have effect as if the provision made by that section were re-numbered as subsection (1) of that section, and as if, in that provision—*

*(a)for the words "local licence" there were substituted the words "community radio licence";*

*(b)in paragraph (b), for the words from "living in the area or locality for which the service would be provided" there were substituted the words "comprising the relevant community";*

*(c)in paragraph (c), for the word "for", in the first place where it occurs, there was substituted the word "in", and for the words "cater for tastes" to the end there were substituted the words "be of a nature or have a content distinct from that of any other local service the licence for which would overlap with the licence for the proposed service";*

*(d)the word "and" immediately before paragraph (d) was omitted, and after the word "service" in that paragraph there were added the following paragraphs—*

*"(e)the extent to which the provision of any such proposed service would result in the delivery of social gain to the public or the relevant community;*

*(f)the provision that each of the applicants proposes to make in order to render himself accountable to the relevant community in respect of the provision of the proposed service;*

*(g)the provision that each of the applicants proposes to make to allow for access by members of the relevant community to the facilities to be used for the provision of the service and for their training in the use of those facilities".*

*(2) Also, that section shall have effect as if the following subsections were added at the end—*

*...*

*(3) Where OFCOM have published a notice under section 104(1), in the case of a proposal of theirs to grant a licence to provide a community radio service, they shall, in determining—*

*(a)whether, or to whom, to grant the licence in question, and*

*(b)if they grant it, the terms on which it is granted,*

*have regard to the need to ensure that any service provided under that licence does not prejudice unduly the economic viability of any other local service.*

*(4) Accordingly, and without prejudice to the generality of subsection (3)—*

*(a)OFCOM shall not grant a licence to provide a community radio service in any case where the licence, if granted, would overlap with another local licence for a service, other than a community radio service, the potential audience of which includes no more than 50,000 persons who have attained the age of 15 years;*

*(b)every licence to provide a community radio service that overlaps with any other local licence the potential audience of which includes more than 50,000 persons who have attained the age of 15 years, but no more than 150,000 such persons, must contain such conditions as appear to OFCOM to be appropriate for prohibiting—*

*(i)the inclusion in that service of any remunerated advertisement, and*

*(ii)the sponsorship of any programmes included in that service; and*

*(c)every licence to provide a community radio service, other than a licence to provide a service such as falls within paragraph (b) above, must contain the conditions mentioned in subsection (5).*

*(5) Subject to subsection (6), the conditions are those that appear to OFCOM to be appropriate, in the case of the community radio licence in question, for ensuring that the amount of such of the relevant income for that licence as is attributable to any arrangements for—*

*(a)the inclusion in the service provided under that licence of any remunerated advertisement, or*

*(b)the sponsorship of any programmes included in that service,*

*does not, in any financial year of the licence holder, exceed such proportion of the total relevant income for that licence in that year as may be specified in those conditions.*

…

## Gorchymyn Radio Cymunedol (Diwygio) 2015

A1.10 Roedd y Gorchymyn hwn yn addasu'r Atodlen i Orchymyn Radio Cymunedol 2004 ac wrth wneud hynny yn addasu ymhellach adran 105 o Ddeddf Darlledu 1990.

…

*5.—(1) Paragraph 5(2)(4) (which modifies section 105 of the Broadcasting Act 1990 by adding subsections (2) to (8) to that section as it has effect in relation to a community radio service) is amended as follows.*

*(2) In the subsection (3) added to that section—*

*(a)after "provide a community radio service," insert "or where OFCOM is considering a variation of such a licence under section 86(5) to include conditions set out in subsection (5)";*

*(b)in paragraph (a) after "in question" insert "(or, as the case may be, whether to vary the licence in question pursuant to section 86(5))"; and*

*(c)in paragraph (b) after "it is granted," insert "(or, as the case may be, the terms of the variation of the licence in question pursuant to section 86(5)),".*

*(3) For paragraph (b) of the subsection (4) added to that section substitute—*

*"(b)subject to paragraph (c), every licence to provide a community radio service that overlaps with any other licence, other than a community radio service, the potential audience of which includes no more than 150,000 persons who have attained the age of 15 years must contain such conditions as appear to OFCOM to be appropriate for ensuring that the relevant income for that community radio licence as is attributable to any arrangements for—*

*(i)the inclusion in that service of any remunerated advertisement, and*

*(ii)the sponsorship of any programmes included in that service,does not, in any financial year of the licence holder, exceed £15,000;".*

*(4) For paragraph (c) of the subsection (4) added to that section substitute—*

*“(c)every licence to provide—*

*(i)a community radio service that overlaps with any other local licence for a service, other than a community radio service, the potential audience of which includes no more than 150,000 persons who have attained the age of 15 years, where that local licence has at any time been varied pursuant to section 106(1A)(e)(5), or*

*(ii)a community radio service, other than a service such as falls within paragraph (b),must contain the conditions mentioned in subsection (5).”.*

*(5) For the subsection (5) added to that section substitute—*

*“(5) Subject to subsection (6), the conditions referred to in subsection (4)(c) are those that appear to OFCOM to be appropriate, in the case of the community radio licence in question, for—*

*(a)permitting the relevant income for that licence attributable to any arrangements for—*

*(i)the inclusion in the service provided under that licence of any remunerated advertisement, or*

*(ii)the sponsorship of any programmes included in that service,*

*to include the sum of £15,000 per financial year of the licence holder (“the fixed revenue allowance”); and*

*(b)ensuring that where the relevant income attributable to the arrangements set out in paragraph (a) exceeds the fixed revenue allowance in any financial year of the licence holder, any such relevant income in excess of the fixed revenue allowance does not exceed 50% of the total relevant income (disregarding the fixed revenue allowance) for that licence in that year.”*

*(6) After the subsection (5) added to that section insert—*

*“(5A) The Secretary of State may, from time to time, request OFCOM to review whether the £15,000 figure in subsections (4)(b) and (5) remains appropriate.”*

*(7) For subsection (6) added to that section substitute—*

*“(6) OFCOM may include conditions in a licence to provide community radio services falling within subsection (4)(c), which modify the percentage of the total relevant income referred to in subsection (5), if it appears necessary to secure the result that—*

*(a)the inclusion in any community radio service of remunerated advertising; or*

*(b)the sponsorship of programmes included in that service,*

*do not prejudice unduly the economic viability of any other local service (other than a community radio service)."*

# A2. Asesiadau effaith

## Asesiad Effaith

A2.1 Mae Adran 7 o'r Ddeddf yn mynnu ein bod yn cynnal ac yn cyhoeddi asesiad o effaith debygol gweithredu cynnig a fyddai'n debygol o gael effaith sylweddol ar fusnesau neu'r cyhoedd, neu pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom.

A2.2 Yn fwy cyffredinol, mae asesiadau effaith yn arfer llunio polisïau da ac felly, rydyn ni'n disgwyl eu cynnal yng nghyswllt y rhan fwyaf o'n cynigion. Rydyn ni'n defnyddio asesiadau effaith i'n helpu i ddeall ac asesu effaith bosib ein penderfyniadau polisi cyn i ni eu gwneud. Maen nhw hefyd yn ein helpu i egluro'r penderfyniadau polisi rydyn ni wedi penderfynu eu gwneud a pham rydyn ni'n credu bod y penderfyniadau hynny'n cyflawni ein dyletswyddau a'n hamcanion perthnasol yn y ffordd leiaf ymwthiol. Mae ein canllawiau ar asesu effaith yn nodi ein dull gweithredu cyffredinol o ran sut rydyn ni'n asesu a chyflwyno effaith ein penderfyniadau arfaethedig.

A2.3 Mae'r dyletswyddau perthnasol mewn perthynas â'r cynnig sydd dan sylw yn ein hymgynghoriad wedi'u nodi uchod ac yn Atodiad 1 yr ymgynghoriad hwn. Rydyn ni'n disgwyl i'r cynnig hwn gael effaith gadarnhaol gyffredinol ar drwyddedeion, ar gymunedau targed ac ar Ofcom. Fel y nodir yn fanylach ym mharagraffau 4.28 i 4.42, rydyn ni'n disgwyl y bydd effaith net symleiddio'r Prif Ymrwymiadau ar gyfer gorsafoedd radio analog yn rhyddhau adnoddau trwyddedeion, gan ganiatáu i'r gorsafoedd hynny ganolbwyntio'n well ar gynaliadwyedd a gwasanaethu eu cymuned darged. Dylai hyn, yn ei dro, fod o fudd i wrandawyr a'r gymuned darged ehangach.

A2.4 Yn yr un modd, rydyn ni'n disgwyl y bydd y cynnig hwn yn rhyddhau adnoddau Ofcom, oherwydd ni fydd angen inni ystyried cwynion am yr agweddau hyn ar y Prif Ymrwymiadau. Bydd hyn yn ein galluogi i ganolbwyntio ein hadnoddau ar faterion sydd â risg uwch o niwed i gymunedau targed.

A2.5 Rydyn ni'n cydnabod y gallai symleiddio'r Prif Ymrwymiadau yn y ffordd hon gael effaith niweidiol ar y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu i wrandawyr mewn cymuned darged benodol, o ystyried na fydd yn rhaid i orsafoedd fodloni cwotâu bob wythnos. Fodd bynnag, rydyn ni'n hyderus y bydd yr agweddau sy'n weddill ar y Prif Ymrwymiadau, sy'n disgrifio cymeriad y gwasanaeth a rhwymedigaethau budd cymdeithasol y gwasanaeth, yn ddigonol i wneud yn siŵr y bydd gwasanaethau'n parhau i ddarparu i'w cymuned darged. Byddwn yn parhau i ymchwilio i achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r Prif Ymrwymiadau pan fydd hynny'n briodol ac yn gymesur.

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

A2.6 Mae adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig canlynol: oed; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn gwneud hynny.

A2.7 Mae Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 ("Deddf 1998") hefyd yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon, i roi sylw

dyledus i’r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i roi sylw i ba mor ddymunol yw hyrwyddo cysylltiadau da ar draws ystod o gategorïau a amlinellir yn Neddf 1998. Mae Cynllun Cydraddoldeb Diwygiedig Gogledd Iwerddon Ofcom yn egluro sut rydyn ni’n cydymffurfio â’n dyletswyddau statudol o dan Ddeddf 1998.

A2.8 I’n helpu i gydymffurfio â’n dyletswyddau o dan Ddeddf 2010 a Deddf 1998, rydyn ni’n asesu effaith ein cynigion ar bobl sy’n rhannu nodweddion gwarchodedig, ac yn benodol a fyddant yn gwahaniaethu yn erbyn pobl o’r fath neu’n effeithio ar gyfle cyfartal neu gysylltiadau da.

A2.9 Wrth feddwl am gydraddoldeb, rydyn ni’n meddwl yn fwy eang na phobl sy’n rhannu nodweddion gwarchodedig a nodir mewn deddfwriaeth cydraddoldeb, ac yn meddwl am yr effeithiau posib ar wahanol grwpiau o bobl (gweler paragraff 4.7 yn ein canllawiau ar asesu effaith).

A2.10 Yn benodol, mae adran 3(4) o’r Ddeddf Cyfathrebiadau yn mynnu ein bod yn rhoi sylw i anghenion a buddiannau grwpiau penodol o bobl wrth gyflawni ein dyletswyddau, fel y bo’n berthnasol yn yr amgylchiadau yn ein tyb ni. Mae'r rhain yn cynnwys:

a) natur fregus plant ac eraill y mae eu hamgylchiadau yn ein barn ni yn golygu bod angen diogelwch arbennig arnynt;

b) anghenion pobl anabl, pobl hŷn a phobl sydd ar incwm isel;

c) gwahanol fuddiannau pobl mewn gwahanol rannau o’r DU, y gwahanol gymunedau ethnig yn y DU a phobl sy’n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.

A2.11 Rydyn ni’n edrych ar yr effaith y mae ein polisi’n debygol o’i chael ar bobl, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau personol. Mae hyn hefyd yn ein helpu i wneud yn siŵr ein bod yn cyflawni ein prif ddyletswydd o hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, waeth beth fo’u cefndir a’u hunaniaeth.

A2.12 Am y rhesymau sy’n cael eu hegluro’n fanylach ym mharagraffau [4.26 – 4.47 uchod] rydyn ni’n credu y bydd ein cynnig yn cael effeithiau cadarnhaol ar gydraddoldeb yn gyffredinol. Yn benodol, dylai ein cynigion roi rhagor o hyblygrwydd i orsafoedd, er mwyn iddynt allu canolbwyntio ar greu budd cymdeithasol i’w cymunedau targed. Wrth wneud hynny, rydyn ni’n credu y bydd ein cynigion yn caniatáu i drwyddedeion fodloni anghenion eu cymunedau targed yn well a gwella cyfleoedd cyfartal i grwpiau sy’n rhannu nodweddion penodol. Dylai trwyddedeion hefyd gael rhagor o amser i ganolbwyntio ar faterion pwysig fel mynd i’r afael â rhagfarn yn eu cymunedau a cheisio dod â grwpiau rhanedig at ei gilydd, a chefnogi cyd-ddealltwriaeth rhyngddynt. Wrth wneud hynny, credwn y dylai ein cynnig hefyd helpu i feithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau.

A2.13 Rydyn ni’n cydnabod y gallai trwyddedeion sydd ag un nodwedd warchodedig neu fwy (fel trwyddedeion sy’n niwroamrywiol, trwyddedeion hŷn neu drwyddedeion nad Saesneg yw eu mamiaith) ei chael hi’n anoddach cydymffurfio â’r Prif Ymrwymiadau mwy goddrychol yn unig, yn hytrach na rhai sy’n seiliedig ar gwotâu penodol. I helpu i liniaru’r effeithiau posib hyn, rydyn ni wedi cynnig, ar ddiwedd adran 4 uchod, rywfaint o egwyddorion lefel uchel i drwyddedeion eu cadw mewn cof wrth ystyried a ydynt yn cydymffurfio â’u Prif Ymrwymiadau. Rydyn ni hefyd yn cynnig safoni rhywfaint o’r geiriad mewn disgrifiadau cymeriad gwasanaeth, a fydd yn caniatáu i drwyddedeion rannu’r arferion gorau ar draws y sector yn haws.

## Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg

A2.14 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gwneud y Gymraeg yn iaith sy'n cael ei chydnabod yn swyddogol yng Nghymru. Arweiniodd y ddeddfwriaeth hon hefyd at sefydlu swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, sy'n rheoleiddio ac yn monitro ein gwaith. Mae'n rhaid i Ofcom ystyried y Gymraeg wrth lunio, adolygu neu ddiwygio polisïau sy'n berthnasol i Gymru (gan gynnwys cynigion nad ydynt wedi'u targedu at Gymru'n benodol ond sydd o ddiddordeb ledled y DU).

A2.15 Os yw Safonau'r Gymraeg yn berthnasol, rydyn ni'n ystyried effaith bosib cynnig polisi ar (i) y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a (ii) ar beidio â thrin yn Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rydyn ni hefyd yn ystyried sut byddai modd llunio cynnig er mwyn iddo gael neu gynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau niweidiol neu beidio â chael unrhyw effaith niweidiol.

A2.16 Fel yr esbonnir yn Adran 4 uchod, nid ydym yn credu bod ein cynigion yn cael unrhyw effaith ar ein rhwymedigaethau o ran y Gymraeg. Mae ein hasesiad o effaith ein cynigion, yn ogystal â chwestiynau ymgynghori ynghylch yr asesiad hwn, ar gael yn adran 4 y ddogfen hon.

A2.17 Nodwn fod gan rai gorsafoedd rwymedigaeth i ddarlledu yn Gymraeg ar hyn o bryd. Byddwn yn sicrhau wrth amrywio'r trwyddedau ar gyfer y gorsafoedd hyn bod y gofyniad hwn yn cael ei gadw fel rhan o gymeriad y gwasanaeth, ac wrth wneud hynny byddwn yn sicrhau nad oes gostyngiad yn y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Rydyn ni wedi ystyried a oes ffyrdd y gallai'r cynigion hyn gael effaith gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg, ond gan nad ydym yn cynnig gwneud newidiadau sylweddol i gymeriad gwasanaeth gorsafoedd, nid ydym yn credu ei bod yn briodol gosod rhwymedigaethau ychwanegol o ran y Gymraeg.

# A3. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

A3.1 Os ydych chi'n dymuno cyflwyno safbwyntiau neu sylwadau ynghylch y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon, gofynnwn i chi wneud hynny erbyn 5pm ddydd Iau 13 Mehefin 2024.

A3.2 Gallwch lwytho ffurflen ymateb i lawr yn https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/community-radio-future-approach-to-key-commitments. Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A3.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata arall i'w gefnogi, a fyddech chi cystal â'i anfon dros e-bost i broadcast.licensing@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno.

A3.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, gan farcio teitl yr ymgynghoriad arnynt:

Tîm Trwyddedau Darlledu
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

A3.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill heblaw mewn print, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

- anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai'r recordiad bara am fwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau DVD, wmv neu QuickTime; neu
- gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle cynnal arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A3.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol)

A3.7 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymateb a gyflwynir i ni dros e-bost.

A3.8 Nid oes rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydyn ni hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A3.9 Byddai'n ddefnyddiol petai hi'n bosib i'ch ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau wedi cael eu rhestru yn Atodiad X. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai hi'n bosib i chi egluro pam rydych yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom.

A3.10 Os hoffech chi drafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost i broadcast.licensing@ofcom.org.uk.

## Cyfrinachedd

A3.11 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu sydd ddim yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben.

A3.12 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu eich ymateb.

A3.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A3.14 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd cyn datgelu, efallai y byddwn yn rhannu copi o'ch ymateb ag adran berthnasol yn y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan.

A3.15 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom eu defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

## Y camau nesaf

A3.16 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn ystod hydref 2024.

A3.17 Gallwch chi gofrestru i gael diweddariadau post yn rhoi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom os ydych yn dymuno hynny.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A3.18 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosib ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad x.

A3.19 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y modd rydyn ni'n rheoli ein hymgynghoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydyn ni'n arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A3.20 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn gyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

A3.21 Corporation Secretary
Ofcom
Riverside House

2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

# A4. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori

Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

## Cyn yr ymgynghoriad

A4.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol gyda phobl a chyrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

## Yn ystod yr ymgynghoriad

A4.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydyn ni'n ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A4.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda throsolwg o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosib i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.

A4.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosib ein cynigion.

A4.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb o bosib yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif bwynt cyswllt os oes gennych farn am y modd rydyn ni yn cynnal ein hymgynghoriadau.

A4.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

## Ar ôl yr ymgynghoriad

A4.7 Credwn ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion bob hyn a hyn yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hyn.

# A5. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

## Manylion sylfaenol

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

## Cyfrinachedd

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych yn ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau am hynny

- Dim ☐
- Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐
- Ymateb cyfan ☐
- Sefydliad ☐
- Rhan o'r ymateb ☐

Os ydych chi wedi dewis 'Rhan o'r ymateb', nodwch pa rannau:

-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Os ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, ydych chi'n fodlon i Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

## Datganiad

Rwyf yn cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwyf yn deall ei bod yn bosib y bydd angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u nodi'n gyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynglŷn â pheidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Os yw'ch ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os darperir copi caled)

# A6. Cwestiynau'r ymgynghoriad

A6.1 Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am safbwyntiau rhanddeiliaid ar ein cynigion i symleiddio Prif Ymrwymiadau pob gorsaf radio cymunedol analog. Y cynnig yw cael gwared ar y Prif Ymrwymiadau sy'n ymwneud â faint o raglenni a'r math o raglenni sydd i'w darlledu, ee y prif fathau o allbwn llafar a cherddoriaeth, faint o allbwn gwreiddiol ac allbwn wedi'i gynhyrchu'n lleol y bydd y gwasanaethau'n darlledu.

A6.2 Gan ystyried pwysigrwydd cynnwys ieithoedd lleiafrifol i rai gorsafoedd radio cymunedol a'u cynulleidfaoedd targed, rydyn ni'n cynnig cadw'r elfennau hynny o'r Prif Ymrwymiadau sy'n ymwneud â'r ieithoedd hyn. Lle nad yw'r rhain eisoes wedi'u cynnwys yn natganiad cymeriad gwasanaeth gorsaf, rydyn ni'n cynnig bod gofynion iaith presennol yn cael eu hychwanegu at y datganiad cymeriad gwasanaeth, gan gynnal y gofynion ar gyfer darparu cynnwys iaith o'r fath.

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â dull gweithredu arfaethedig Ofcom ar gyfer cael gwared ar ofynion penodol o ran genres cerddoriaeth o'r Prif Ymrwymiadau? Rhowch ragor o wybodaeth a/neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb.

Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno â dull gweithredu Ofcom ar gyfer cael gwared ar ofynion penodol o ran cynnwys llafar o'r Prif Ymrwymiadau? Rhowch ragor o wybodaeth a/neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb.

Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno â dull gweithredu Ofcom ar gyfer cael gwared ar y gofynion allbwn gwreiddiol o'r Prif Ymrwymiadau? Rhowch ragor o wybodaeth a/neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb.

Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno â dull gweithredu Ofcom ar gyfer cael gwared ar y gofynion allbwn wedi'i gynhyrchu'n lleol o'r Prif Ymrwymiadau? Rhowch ragor o wybodaeth a/neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb.

Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno â dull gweithredu arfaethedig Ofcom ar gyfer gofynion iaith gorsafoedd radio cymunedol? Rhowch ragor o wybodaeth a/neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb.

Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno â dull gweithredu arfaethedig Ofcom ar gyfer safoni'r iaith yn y disgrifiadau o gymeriad gwasanaeth gorsafoedd radio cymunedol? Rhowch ragor o wybodaeth a/neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb.

Cwestiwn 7: Ydych chi'n cytuno ag asesiad Ofcom o effaith ei newidiadau arfaethedig? Rhowch ragor o wybodaeth a/neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb.

Cwestiwn 8: A oes unrhyw effaith yn sgil y cynigion hyn nad yw Ofcom wedi'i chydnabod yn y ddogfen hon?

Cwestiwn 9: Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o effaith bosib ein cynigion ar y Gymraeg? Rhowch ragor o wybodaeth a/neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb.

Cwestiwn 10: Ydych chi'n credu y byddai modd llunio neu ddiwygio ein cynnig er mwyn sicrhau ei fod yn cael effeithiau positif, neu'n lleihau/cael gwared ar unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Cwestiwn 11: Ydych chi'n cytuno â'r egwyddorion cydymffurfio rydyn ni'n eu cynnig?